

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i staff a rheolwyr sy'n gweithio yn yr ardaloedd a gymerodd ran yn yr arolygiad, sef Bournemouth, Conwy, Leeds, Norwich, Tameside a Waltham Forest.

Rydym yn ddiolchgar hefyd i staff a rheolwyr Heddlu Avon a Gwlad yr Haf ac Ymddiriedolaeth Brawf Avon a Gwlad yr Haf am eu cymorth wrth dreialu'r arolygiad.

Arolygydd Arweiniol	Mark Boother, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>
Y Tîm Arolygu	Mike Lane, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Gary Smallman, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i> Rob Bowles, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i> Paul Eveleigh, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i> Mark Ewan, <i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi</i>
Gwasanaethau Cymorth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi	Stephen Hunt, <i>Swyddog Gwasanaethau Cymorth</i> Oli Kenton, <i>Swyddog Ymchwil Cynorthwyol</i> Lynne Osborn, <i>Swyddog Gwasanaethau Cymorth</i> Alex Pentecost, <i>Rheolwr Cyhoeddiadau</i> Christopher Reeves, <i>Prawfddarlennydd</i>
Prif Arolygydd Cynorthwyol	Andy Smith, <i>Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi</i>

Rhagair

Mae Rheoli Troseddwy'r Integredig yn elfen bwysig o strategaeth y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i rwystro troseddu a lleihau aildroseddu. Mae'n rhoi cyfle unigryw i gynnal goruchwyliaeth a gradd o reolaeth dros droseddwy'r sydd â risg uchel o aildroseddu, hyd yn oed pan nad ydynt yn destun goruchwyliaeth statudol. Cafodd egwyddorion allweddol y dull eu nodi mewn cyhoeddiad ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2009. Mae Rheoli Troseddwy'r Integredig yn golygu asiantaethau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni ymateb lleol i droseddu, targedu'r troseddwy'r hynny sydd â'r mwyaf o risg o aildroseddu neu o gyflawni troseddau a allai achosi niwed difrifol i eraill.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithlon o rwystro troseddu yw adsefydlu'r rheini sydd fwyaf tebygol o gyflawni troseddau; mae canolbwyntio sylw ar y rheini y mae'n hysbys iddynt gyflawni troseddau lluosog yn ffordd synhwyrol o rwystro troseddu. Mae'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn ceisio darparu lefel uwch o oruchwyliaeth a rheolaeth ar gyfer y troseddwy'r hynny sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd â risg o aildroseddu, ynghyd â chanolbwyntio ar adsefydlu'r rheini sy'n barod i dderbyn cymorth.

Yn yr arolygiad hwn rydym wedi ceisio adnabod arferion da a lle i wella. Yn y chwe ardal yr ymwelasom â hwy, canfuom ddarlun cymysg iawn, gyda gwahanol raddau o ymrwymiad i'r dull ymysg yr asiantaethau perthnasol. Yr heddlu oedd yr asiantaeth arweiniol fel arfer ac, mewn rhai achosion, roeddent yn ceisio cyflawni swyddogaethau adsefydlu a rheoli lle nad oedd Ymddiriedolaethau Prawf wedi neilltuo adnoddau digonol. Lle bo Ymddiriedolaethau Prawf yn chwarae rhan lawn ar lefel strategol a gweithredol ochr yn ochr â'r heddlu a sefydliadau eraill, dyna pryd yr oedd gan y dull y potensial mwyaf o lwyddo.

Canfuom enghreifftiau o waith adsefydlu da a rhai enghreifftiau rhagorol o rannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod camau gorfodi'n digwydd yn gyflym ac yn effeithiol, lle deuai'r angen am hynny. Fodd bynnag, canfuom hefyd bod y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn dal heb ddatblygu'n llawn mewn rhai lleoedd.

Yn gyffredinol, mae'n canfyddiadau ynghylch canlyniadau'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn rhoi lle i optimistaeth ofalus. Roedd yn amlwg i ni bod y troseddwy'r iawn yn cael eu targedu; roedd rhai arwyddion fod bywydau troseddwy'r wedi gwella oherwydd bod eu problemau, megis camddefnyddio sylweddau, wedi cael sylw. Er y gellid ystyried bod cyfraddau aildroseddu yn siomedig, roeddem ni'n gweld hyn fel rhywbeth symptomatig o'r patrwm dwfn o droseddu sydd ymysg y cohort Rheoli Troseddwy'r Integredig, yn hytrach na methiant y dull ei hun.

Yn allweddol, canfuom fod absenoldeb dull strwythuredig a systematig o werthuso yn tanseilio ymdrechion i asesu ac adrodd ar effeithiolrwydd Rheoli Troseddwy'r Integredig. Mae'n ddull o ddefnyddio synnwyr cyffredin y mae rhywun yn teimlo'n reddfod ei fod yn iawn. Fodd bynnag, mae absenoldeb tystiolaeth glir o effeithiolrwydd o safbwynt lleihau troseddau a lleihau aildroseddu yn llesteirio dealltwriaeth o'i effaith a'i werth. Petai'r dystiolaeth yn dangos bod Rheoli Troseddwy'r Integredig yn llwyddiannus wrth leihau troseddu ac aildroseddu, byddai achos cryf dros fuddsoddi pellach ynddo. Os nad yw, byddai angen ailfeddwl. Credwn bod gwir botensial gan y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig; fodd bynnag, yn absenoldeb tystiolaeth drylwyr i gefnogi hyn, ni allwn wneud argymhelliad cadarn y naill ffordd neu'r llall.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn wrth i'r rhaglen Trawsnewid Adsefydlu symud i'w cham nesaf. Bydd y rhaglen yn cael effaith sylweddol ar drefniadau lleol ac, os ydym yn gywir ynghylch potensial Rheoli Troseddwy'r Integredig, mae'n hanfodol fod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael eu symbylu i barhau i ddatblygu Rheoli Troseddwy'r Integredig yn y dyfodol agos. Yn y pen draw, fodd bynnag, dylai unrhyw benderfyniad i barhau datblygu Rheoli Troseddwy'r Integredig gael sail o well dealltwriaeth o'i effeithiolrwydd.

Mae'n amlwg fod Rheoli Troseddwy'r Integredig yn ddull addawol. Rydym wedi nodi, yn yr adroddiad hwn, nifer o argymhellion i adeiladu ar lwyddiannau hyd yma. Canfuom fod ymdrechion i werthuso effaith Rheoli Troseddwy'r Integredig gan yr asiantaethau sy'n ymwneud â'i gyflwyno yn brin o strwythur ac nad oedd llawer o adnoddau wedi eu neilltuo ar eu cyfer. Credwn fod angen ar frys am ymchwil a gwerthuso awdurdodol i ystyried costau a manteision Rheoli Troseddwy'r Integredig, asesu effeithiolrwydd y dull ac adnabod yr arferion gorau.

Paul McDowell

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi

Tom Winsor

Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Mawrth 2014

Cynnwys

Tudalen

Cydnabyddiaeth	2
Rhagair	3
Cynnwys	5
Crynodeb o'r canfyddiadau	6
Argymhellion	10
1. Methodoleg yr arolygiad	12
2. Y cyd-destun polisi	14
3. Strwythur trefniadau Rheoli Troseddwyr Integredig	18
4. Adnabod a thargeddu	22
5. Asesu a chynllunio	26
6. Cyflawni ymyriadau Rheoli Troseddwyr Integredig	31
7. Barn y rheini sy'n destun Rheoli Troseddwyr Integredig	41
8. Canlyniadau perfformiad	44
Atodiad 1: Geirfa	49
Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a'r cod ymddygiad	50
Atodiad 3: Cyfeiriadau	51

Crynodeb o'r canfyddiadau

Yr arolygiad

Cytunwyd ar yr arolygiad gan y Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ac roedd yn ffurfio rhan o'r llif gwaith a nodwyd yng *Nghynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2013-2015*. Amcanion yr arolygiad oedd helpu wrth asesu effaith Rheoli Troseddwy'r Integredig a lledaenu arferion da.

Ymwelasom â chwe ardal a siaradasom â staff strategol a gweithredol ar bob gradd, o'r holl sefydliadau sy'n ymwneud â chyflwyno Rheoli Troseddwy'r Integredig. Cynaliasom gyfweiliadau'n ymwneud â 108 o achosion gan ddefnyddio offeryn asesu achosion a ddyfeisiwyd gennym. Yn ogystal, siaradasom â 16 o droseddwy'r a oedd yn destun Rheoli Troseddwy'r Integredig.

Y cyd-destun polisi

Rheoli Troseddwy'r Integredig (*Integrated Offender Management – IOM*) yw'r fframwaith polisi presennol ar gyfer rheoli troseddwy'r a adnabuwyd yn lleol fel rhai angen blaenoriaeth. Mae'n ddull amlasiantaeth a hyrwyddir gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n anelu at leihau troseddu gan droseddwy'r unigol a lleihau'r gyfradd droseddu gyffredinol. Mae egwyddorion Rheoli Troseddwy'r Integredig yn pwysleisio y dylai pob partner gydweithredu wrth weithio gyda throseddwy'r a bod yn rhaid i droseddwy'r, yn eu tro, wynebu eu cyfrifoldebau neu wynebu'r canlyniadau.

Nid oes unrhyw feini prawf perfformiad y cytunwyd arnynt ar gyfer asesu rhinweddau dulliau Rheoli Troseddwy'r Integredig; er bod disgwyliad y bydd dull effeithiol o Reoli Troseddwy'r Integredig yn cyfrannu at gyrraedd nod y Swyddfa Gartref o leihau troseddu ac uchelgais y Weinyddiaeth Gyfiawnder i leihau ymhellach aildroseddu. Yn ymarferol, nid yw'r amcanion hyn yn alinio â'i gilydd bob amser a gallant yrru ymddygiad sefydliadol gwahanol.

Roedd Rheoli Troseddwy'r Integredig yn adeiladu ar y cynllun blaenorol i ymdrin â throseddwy'r cyson a throseddwy'r eraill â blaenoriaeth, ond nid oedd yn disodli'r cynllun hwnnw. Mae'n fwy uchelgeisiol yn ei gwmpas ac mae'n targedu cohort sylweddol fwy o droseddwy'r.

Strwythur dulliau Rheoli Troseddwy'r Integredig

Roedd ehangder a dyfnder y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn wahanol ym mhob un o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, gyda goblygiadau i gwmpas y gwaith y ceisid ei wneud. Mewn pedair ardal, roedd 'brand' lleol cryf i'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig ac roedd yn strategol arwyddocaol mewn cynigion i reoli'r swm o droseddu lleol.

Ym mhob un o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, yr heddlu oedd yn gyfrifol am arwain rheolaeth y dull o ddydd i ddydd. Roedd pedair ardal wedi cyrraedd lefel dda o gyd-leoli. Yn hanner yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, roedd y gwasanaeth prawf yn chwarae rhan bwysig ar lefel strategol. Roedd pob ardal wedi ffurfio rhyw radd o weithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael ag anghenion – yr anghenion cysylltiedig â throseddu – y troseddwy'r hynny sy'n destun y dull.

Adnabod a thargeddu

Mae'r ffaith nad yw'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn pennu camau gweithredu na gofynion penodol yn golygu bod ardaloedd unigol wedi dehongli mewn amrywiol ffyrdd pwy y dylid eu

rheoli o dan y dull. Roedd mwyafrif y troseddwy'r archwylasom eu hachosion wedi cael eu hadnabod yn lleol fel rhai addas gan naill ai'r heddlu neu'r gwasanaeth prawf.

Roedd y mwyafrif o ardaloedd wedi defnyddio rhyw ffurf o fatrics wedi'i bwysoli ar gyfer penderfynu a oedd unigolyn yn addas ar gyfer eu dull. Roedd tua traean o'r achosion yn rhai nad oedd yn destun goruchwyliaeth statudol o dan y gyfraith bresennol. Mae'r hyblygrwydd a ganiateir i ardaloedd unigol yn golygu bod proffil yr achosion a reolir o dan y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd. Roeddem yn gallu adnabod tri 'math' o ddull, gyda dau o'r rheini y gwnaethom eu hasesu fel rhai derbyniol, yn yr ystyr bod gan yr asiantaethau partner sail resymegol glir a chynhwysfawr dros benderfyniadau yr oeddent wedi eu gwneud ynghylch pa droseddwy'r oedd o fewn y cwmpas ar gyfer dull Rheoli Troseddwy'r Integredig.

Asesu a Chynllunio

Roedd ymdrech sylweddol wedi cael ei gwneud fel arfer i ennyn cydweithrediad y troseddwr yn y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig. Roedd hyn yn aml yn cael ei wneud ar y cyd gan swyddog heddlu a swyddog o'r gwasanaeth prawf, fel arfer mewn amgylchedd sefydliad carcharu. Credai staff fod ansawdd y cysylltiad cyntaf hwn yn bwysig wrth ddatblygu perthynas gyda'r troseddwr a fyddai'n angenrheidiol er mwyn cyflawni newid. Roeddem yn cefnogi'r farn hon. Yn yr ardaloedd yr ymwelâsom â hwy, roedd y troseddwy'r a gafodd eu hadnabod yn rhai ac iddynt lefel uchel o anghenion ynghlŷn â'u troseddu, fel y byddem wedi disgwyl.

Yn aml, nid oedd cynlluniau ysgrifenedig ar gyfer rheoli troseddwy'r o dan Reoli Troseddwy'r Integredig yn rhai datblygedig iawn, er bod staff yn gyffredinol yn gallu mynegi'r hyn yr oeddent yn ceisio'i gyflawni. Roedd rhai o'r staff heb gael yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflwyno dulliau Rheoli Troseddwy'r Integredig yn effeithiol.

Ymyriadau Rheoli Troseddwy'r Integredig

Roedd dryswch ynghylch gwahanol ofynion y cynllun troseddwy'r cyson a throseddwy'r eraill â blaenoriaeth a'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig. Roedd pob ardal yn defnyddio iaith ychydig yn wahanol i ddisgrifio'r hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni. Roedd rhai ardaloedd wedi datblygu modd o flaenoriaethu gwaith a chategoreiddio troseddwy'r a oedd yn gallu cynnal natur deinamig y gwaith a oedd ei angen o ddydd i ddydd gydag unigolion a adnabuwyd.

Mae ymyriadau a gyflwynir o dan Reoli Troseddwy'r Integredig yn rhai y gellir eu disgrifio fel arfer fel rhai sydd naill ai'n ymwneud ag adsefydlu neu sy'n canolbwyntio ar rwystro/gorfodi. Roedd y mwyafrif o ardaloedd fel arfer yn mabwysiadu dull o gydreoli troseddwy'r unigol, gan ddefnyddio'r heddlu, y gwasanaeth prawf a staff eraill. Canfuom fod hyn yn effeithiol ar y cyfan, yn enwedig o'i gplysu â dull hyblyg seiliedig ar asesiad cywir o ysgogiad presennol y troseddwy'r.

Roedd swyddogion heddlu a oedd yn gweithio o fewn timau Rheoli Troseddwy'r Integredig weithiau'n arwain ar ymyriadau adsefydlu. Rydym yn glir y dylai swyddogion heddlu sy'n gweithio yn yr amgylchedd hwn gael rhywfaint o wybodaeth o'r damcaniaethau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chynorthwyo troseddwy'r i lwyddo ymatal, ond eu prif rôl ddylai fod casglu a lledaenu gwybodaeth a gorfodi.

Canfuom lawer o enghreifftiau o arferion da o ran dulliau adsefydlu a rhai rhwystro/gorfodi. Canfuom hefyd lawer o enghreifftiau da o rannu gwybodaeth a hwylusir drwy'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig a oedd yn arwain at ddal troseddwy'r yn gyflym. Roedd dwy ardal wedi cychwyn technoleg system leoli fyd-eang (GPS) i fonitro symudiadau troseddwy'r, ar sail

wirfoddol, gyda rhywfaint o lwyddiant. Mae hyn yn faes am ddatblygiad, ymchwil a gwerthuso pellach.

Barn y rheini sy'n destun Rheoli Troseddwy'r Integredig

Wrth gael eu cyfnewid, roedd y troseddwy'r a oedd yn cael eu rheoli o dan y dull, yn gyffredinol, yn gadarnhaol iawn ynghylch y ffordd yr oeddent wedi cael eu trin. Roeddent yn deall, yn gyffredinol, pam eu bod wedi cael eu targedu ac roeddent yn falch o gael cynnig yr help roedd arnynt ei angen i symud i ffwrdd oddi wrth droseddu. Fe wnaeth amryw o droseddwy'r grybwyll bod rhai cynigion blaenorol i'w cynorthwyo heb fod yn ddigon dwys i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Roedd unplygrwydd y staff o bob cefndir a oedd yn gweithio o fewn y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig hefyd yn thema gyffredin.

Canlyniadau perfformiad

Mae priodoli canlyniadau i ymyriadau penodol mewn cyfiawnder troseddol yn nodedig o anodd. Roedd y mwyafrif o ardaloedd wedi gwneud rhyw ymdrech i fesur canlyniadau, fel arfer o safbwynt y graddau yr oedd y rheini a oedd yn destun i'r dull yn aildroseddu. Roeddent i gyd wedi defnyddio methodoleg gwahanol ac nid oedd yr un yn soffistigedig yn ystadegol. Er gwaethaf hyn, credai staff yn holl ardaloedd yr ymwelasom â hwy fod Rheoli Troseddwy'r Integredig wedi cael effaith cadarnhaol ar leihau troseddu yn y gymuned leol.

Roedd gan lawer o droseddwy'r anghenion lluosog a chymhleth. Fodd bynnag, roedd cynnydd da neu ddigonol wedi cael ei wneud yn gyffredinol wrth rhoi sylw i'r anghenion hynny lle oeddent yn ymddangos. Roedd hyn yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn gyffredinol lwyddiannus wrth ddarparu'r gwasanaethau iawn i gynorthwyo yn y broses adsefydlu. Er canfuom achosion unigol lle'r oedd cynnydd nodedig wedi cael ei wneud, roedd y gyfran gyffredinol o'r sampl a oedd wedi tramgwyddo neu a gafodd eu hailgolfarnu dros 60%. Er y gellid gweld y ffigur hwn fel un siomedig, rydym o'r farn fod hyn o ganlyniad i'r dull Rheoli Troseddwy'r Integredig o dargedu troseddwy'r a oedd a phatrymau cyson o ymddwyn a phroblemau lluosog. Mae rhannu gwybodaeth a mynd ati o ddifrif i dargedu'r rhai sy'n destun y dull Rheoli Troseddwy'r Integredig gyda chymrwyo gorfodi wedi cael yr effaith o sicrhau bod troseddwr, lle mae'n llithro'n ôl i ymddygiad troseddol, yn cael ei ddal yn gyflym.

Casgliad

Mae Rheoli Troseddwy'r Integredig yn rhoi cyfle i bartneriaid cyfiawnder troseddol ddatblygu dull o reoli'r troseddwy'r hynny y mae eu troseddu'n peri mwyaf o bryder yn lleol. Mae'r mwyafrif o'r rheini sy'n gweithio mewn Rheoli Troseddwy'r Integredig wedi ymrwymo i'r dull lleol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o leihau aildroseddu. Mae'r fframwaith polisi'n caniatáu hyblygrwydd sylweddol ynghylch sut y gellir cyflawni'r disgwyliadau hyn. Canfuom nad oedd pob ardal wedi cofleidio Rheoli Troseddwy'r Integredig mewn ffordd effeithiol.

Mae nodweddion y dull, a natur y troseddwy'r sy'n cael eu rheoli oddi tano, yn amrywio'n sylweddol o le i le. Roedd y mwyafrif o ardaloedd wedi cyrraedd rhyw radd o gydleoli a gweithio mewn partneriaeth, er bod lle i ddatblygu'n sylweddol mewn rhai lleoedd.

Mae gweithio mewn partneriaeth i gydreoli troseddwy'r yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol. Fodd bynnag, dengys ein canfyddiadau fod dulliau'n fwy effeithiol yn yr ardaloedd hynny lle mae asiantaethau'n canolbwyntio ar eu cyfraniad unigryw o fewn y fframwaith partneriaeth. Yn strategol, mae'n well sicrhau'r staff cywir, yn hytrach na cheisio cyflwyno gwasanaethau heb yr hyfforddiant neu'r sgiliau angenrheidiol.

Mewn llawer iawn o achosion, roedd yr ymyriadau a gyflwynwyd i hyrwyddo adsefydlu yn rhai addawol. Gwelsom hefyd enghreifftiau rhagorol o weithgaredd rhwystro/gorfodi a rhannu gwybodaeth. Roedd y rheini a oedd yn destun y dull yn deall pam eu bod wedi cael eu targedu, ac roeddent yn aml yn gadarnhaol iawn ynghylch y ffordd yr oeddent wedi cael eu rheoli, hyd yn oed pan oedd hyn yn cynnwys camau gorfodi.

Mae'n dal i fod angen datblygu pellach ar y sail dystiolaeth ar gyfer Rheoli Troseddwy'r Integredig. Mae gwaith o hyd i'w wneud ar gydbwysu'r awydd am adsefydlu gyda'r gofyn i dargedu gweithgaredd gorfodi ar y rhai sydd fwyaf tebygol o aildroseddu, a dangos hyn o fewn fframwaith perfformiad.

Argymhellion

Camau y dylai'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eu cymryd:

- adolygu egwyddorion a chanllawiau Rheoli Troseddwy'r Integredig er mwyn creu fframwaith sengl i'r troseddwy'r hynny sy'n cael eu hadnabod fel rhai addas, gan gynnwys disgrifiad clir o natur y gwaith i gael ei gyflawni
- diddymu'r holl ofynion a chanllawiau blaenorol, megis y rheini sy'n berthnasol i'r cynllun troseddwy'r cyson a throseddwy'r eraill â blaenoriaeth, ac ymgorffori'r rhain i'r canllawiau newydd lle bo hynny'n berthnasol
- hyrwyddo fframwaith blaenoriaethu i adlewyrchu'n gywirach yr amcanion i anelu atynt gyda throseddwy'r unigol
- sicrhau bod egwyddorion Rheoli Troseddwy'r Integredig yn cael eu hymgorffori yn y rhaglen *Trawsnewid Adsefydlu*, gyda chymhelliannau perfformiad cryf i ddarparu'r gwasanaethau prawf i gyfrannu at Reoli Troseddwy'r Integredig
- sicrhau bod contractau newydd ar gyfer monitro troseddwy'r yn electronig yn cynnig fframwaith cyfreithiol addysg i'r troseddwy'r hynny sy'n destun gorchmynion statudol a reolir o fewn Rheoli Troseddwy'r Integredig
- comisiynu gwerthusiad annibynnol, awdurdodol a strwythuredig o gost a buddion Rheoli Troseddwy'r Integredig o safbwynt lleihau troseddu; lleihau amllder a/neu difrifoldeb aildroseddu; ac yn y pen draw ymatal rhag troseddu.

Camau y dylai Prif Gwnstabiaid eu cymryd:

- hyrwyddo buddion Rheoli Troseddwy'r Integredig i bawb o'r swyddogion a'r staff yn eu hardal heddlu eu hunain, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen
- sicrhau bod prosesau ar waith sy'n sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n ôl a blaen rhwng unedau Rheoli Troseddwy'r Integredig a swyddogion heddlu rheng flaen a staff.

Camau y dylai Ymddiriedolaethau Prawf eu cymrydⁱ:

- chwarae rhan weithredol ar lefel strategol, er mwyn sicrhau bod Rheoli Troseddwy'r Integredig yn effeithiol
- darparu gwasanaethau addas i'r holl droseddwy'r a reolir o fewn Rheoli Troseddwy'r Integredig, waeth beth fo'u statws statudol.

Camau y dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid eu cymryd:

- sicrhau bod Timau Troseddwy'r Ifanc yn sylweddoli'r manteision o gydweithredu gyda chynlluniau Rheoli Troseddwy'r Integredig.

ⁱ O dan Strategaeth *Trawsnewid Adsefydlu* y Llywodraeth, bydd Ymddiriedolaethau Prawf yn cael eu disodli gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol o 1 Mehefin 2014. Disgwyliwn y bydd yr Ymddiriedolaethau Prawf yn gweithredu ar yr argymhellion hyn yn y lle cyntaf, ac wedyn y sefydliadau a fydd yn eu holynu.

Camau y dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu cymryd:

- sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol yn chwarae rhan wrth gyflwyno Rheoli Troseddwy'r Integredig, fel cyfraniad sylweddol at leihau troseddu lleol
- enwi un swyddog arweiniol o statws ddigonol i gyfrannu at gynllunio strategol Rheoli Troseddwy'r Integredig ym mhob ardal.

Camau y dylai partneriaethau Rheoli Troseddwy'r Integredig eu cymryd:

- sicrhau bod pawb o'r staff yn derbyn hyfforddiant digonol i'w galluogi hwy i gyflawni eu dyletswyddau
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol gan yr holl bartneriaid, er mwyn lleihau troseddu ac aildroseddu
- sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o staff yr heddlu a'r gwasanaeth prawf, yn unol â'u sgiliau a'u swyddogaethau.

1. Methodoleg yr arolygiad

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut y datblygodd strwythur a methodoleg yr arolygiad.

Ffeithiau allweddol

Ein nod oedd adnabod arferion da trwy asesu achosion a reolir trwy ddull Rheoli Troseddwy'r Integredig (IOM).

Cyfwelasom â'r holl ddarparwyr sylweddol o wasanaethau IOM yn yr ardaloedd a arolygwyd, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

Roedd y sampl o achosion a arolygwyd ym mhob ardal yn gyffredinol gyson â phroffil yr achosion a reolwyd ac oedolion gwrywaidd oeddent yn bennaf.

Trosolwg o'r broses arolygu

- 1.1 Cytunwyd ar yr arolygiad hwn gan y Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ac roedd yn ffurfio rhan o'r llif gwaith a nodwyd yng *Nghynllun Busnes Arolygiadau ar y Cyd 2013-2015*. Amcanion yr arolygiad oedd: 'cynorthwyo yn y gwaith o asesu effaith IOM a lledaenu arferion da'.
- 1.2 Nid oes unrhyw fanylebau manwl ynghylch beth sy'n rhaid i gynllun IOM ei gyflawni. Yn wyneb hyn, credwn mai'r ffordd orau o ddisgrifio IOM yw fel '*dull*' yn hytrach na rhaglen, gan ei fod yn cael ei arwain gan egwyddorion yn hytrach na set benodedig o ddisgwyliadau. Nodir yr egwyddorion hyn yn y bennod nesaf. Gyda'r egwyddorion hyn mewn cof, fe wnaethom ddyfeisio set o feini prawf i ddilyn yn fras y prosesau a nodir yn y canllawiau presennol, sef: arwain a rheoli; adnabod a thargedu; asesu a chynllunio; cyflawni ac adolygu ymyriadau; a chanlyniadau perfformiad.
- 1.3 Cafodd chwe ardal eu dewis ar gyfer yr arolygiad. Fe wnaethom adnabod tair ardal ddaearyddol lle'r oedd ein gwybodaeth yn ein harwain i gredu bod y dull IOM wedi datblygu'n gymharol dda yno. Dewiswyd tair ardal arall lle nad oedd gennym ond gwybodaeth gyfyngedig, neu ddim gwybodaeth o gwbl, ynghylch perfformiad. O ganlyniad i'r dull hwn, roeddem yn gobeithio gallu adnabod arferion effeithiol a meysydd lle'r oedd lle i wella.
- 1.4 Cafodd offeryn asesu achosion ei ddyfeisio i ddal tystiolaeth o sampl o achosion. Gofynasom i arweinwyr IOM yn yr ardaloedd a ddewiswyd ddarparu rhestr o'r holl droseddwy'r a oedd yn cael eu rheoli ar 01 Ebrill 2013. O'r rhestr hwn o 722 o achosion, dewisasom ein sampl arolygu o 108. Roedd sampl yr arolygiad ym mhob ardal yn dilyn yn fras nodweddion yr achosion a adnabuwyd yn yr ardal o safbwynt statws statudol, statws rheolwr achos a enwyd, lleoliad cymunedol neu yn y ddalfa, oedran, rhyw a hil. Roedd y sampl yn 97% gwrywaidd, gyda 76% yn cael eu disgrifio fel Prydeinig gwyn, 6% du neu Garibiaidd Prydeinig du a 5% Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig o darddiad Pacistanaidd. Roedd y sampl yn cynnwys nifer cymesur o ieuenctid. Mewn 6% o'r achosion, roedd Timau Troseddau Ieuenctid yn dal cyfrifoldeb am oruchwyliaeth statudol. Roedd rhai achosion wedi cael eu rheoli'n ddwys ers dros bum mlynedd; roedd eraill wedi cael eu dewis yn ddiweddar.
- 1.5 Cafodd y gwaith maes ei wneud rhwng Mai a Gorffennaf 2013. Ymwelasom â Bournemouth, Conwy, Leeds, Norwich, Tameside a Waltham Forest. Roedd pob ardal yn

gallu adnabod yn rhwydd achosion a reolir o dan IOM. Roedd y nifer o droseddwyd a reolir o dan y dulliau IOM hyn ym mhob lleoliad yn amrywio o 25 i 372.

- 1.6 Cyfwelasom â'r rheolwr(wyr) achosion a enwyd gan reolwr arweiniol lleol IOM gan ddefnyddio'r offeryn asesu achosion a gwelsom gofnodion perthnasol ar bapur ac ar gyfrifiadur. Cyfwelasom hefyd â rheolwyr pob cynllun IOM, uwch bartneriaid, rhanddeiliaid ac unrhyw ddarparwyr prosiectau neu wasanaethau y credwyd eu bod yn rhan annatod o'r dull yn y lleoliad penodol hwnnw.
- 1.7 Yn ogystal â hyn, cyfwelwyd â 16 o droseddwyd, a reolir o dan ddulliau IOM, gan arolygwyr gan ddefnyddio holiadur lled strwythuredig.

2. Y Cyd-destun Polisi

Crynodeb

Mae'r bennod hon ym amlinellu fframwaith polisi IOM ac yn ei osod o fewn amcanion yr adrannau perthnasol o'r llywodraeth, ac yn ystyried yr hyn sy'n gyffredin rhwng y dull IOM a'r cynllun troseddwy cyson a throseddwy eraill â blaenoriaeth (*prolific and other priority offenders* – PPO).

Ffeithiau Allweddol

Dull o weithio gyda grwpiau o droseddwy a hyrwyddir gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw IOM.

Fframwaith strategol yn hytrach na set benodedig o ofynion yw'r dull IOM.

Mae'r dull yn hyrwyddo'r ddau nod o leihau troseddu a lleihau aildroseddu gan y rheini a dargedir.

Roedd y dull IOM wedi'i sylfaenu i raddau helaeth ar y cynllun PPO, ond nid oedd yn disodli'r cynllun hwnnw.

Mae angen i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol, a grëwyd fel rhan o'r rhaglen *Trawsnewid Adsefydlu* gael eu symbylu mewn ffordd addas i gymryd rhan mewn gweithgareddau IOM.

Rheoli troseddwy â blaenoriaeth

- 2.1 Mae'r ffaith fod cyfran cymharol fach o droseddwy yn cyflawni cyfran cymharol fawr o'r holl droseddau sy'n cael eu datrys wedi arwain at amrywiol gynlluniau polisi amlasiantaeth yn ddiweddar. Cafodd y cynllun troseddwy cyson ei gyflwyno yn 2003 a'i ddisodli wedyn gan y cynllun PPO. IOM yw'r polisi diweddaraf i roi sylw i'r troseddwy hynny y bernir eu bod yn flaenoriaeth.

Y berthynas rhwng y dull IOM a'r cynllun PPO

- 2.2 Mae'r brif fanyleb gwasanaeth gyfer Cynlluniau PPO a gyflwynwyd yn 2005¹, yn dal mewn grym. O dan fodel rheoli troseddwy 2006² cafodd y Cynlluniau eu dynodi fel achosion Haen 4. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gael eu rheoli drwy gydol unrhyw ddedfryd o 12 mis neu fwy o garchar, a'u goruchwyllo'n fwy trylwyr yn y gymuned. Mae'r model hwn hefyd yn dal mewn grym. Fodd bynnag, nid yw'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy (*National Offender Management Service* - NOMS) wedi gosod unrhyw ofynion tebyg ar Ymddiriedolaethau Prawf na charchardai ar gyfer troseddwy â statws IOM.
- 2.3 Er nad oes ond y mymryn lleiaf o ganllawiau na chyfarwyddyd cenedlaethol i'r Cynllun PPO ers mabwysiadu'r dull IOM, mae gofynion trefniadol 'Prif Wasanaeth PPO' yn dal i fod. Gall hyn hefyd effeithio ar y ffordd y caiff achosion eu hymchwilio gan yr heddlu, eu herlyn gan Wasanaeth Erllyn y Goron, a'u rheoli gan y gwasanaethau carchardai a phrawf. Mae rhai dewisiadau, megis profi am gyffuriau ar drwydded ar ôl carchar, nad ydynt ar gael ond i'r rheini sydd wedi cael eu categorio fel troseddwy PPO.

- 2.4 Dull amlasiantaeth o reoli troseddwy, waeth lle maent ar hyn o bryd o fewn y broses cyfiawnder troseddol, yw IOM. Caiff troseddwy eu hadnabod fel arfer ar sail gwybodaeth a gwneir ymdrechion i newid neu reoli eu troseddu gyda chymysgedd o ymyriadau adsefydlu a rhwystro/atal, gan ddibynnu ar raddau cydweithrediad, a/neu troseddu y rheini sy'n destun y dull.
- 2.5 Un o elfennau'r dull IOM sy'n ei wneud yn wahanol i waith arall yr Ymddiriedolaethau Prawf, oedd ei fod yn caniatáu'r posibilrwydd o gynnwys y rheini nad oedd yn destun goruchwyliaeth statudol. Roedd y rhain yn cynnwys y rheini a ryddheir o ddedfrydau o garchar o lai na 12 mis, ar ddiwedd gorchmynion neu drwyddedau cymunedol, neu'r rheini y credir eu bod yn troseddu, nad oedd wedi derbyn dedfryd a oedd yn caniatáu iddynt gael eu goruchwyllo'n ffurfiol.
- 2.6 Cafodd ardaloedd 'arloesi' IOM eu sefydlu mewn chwe lleoliad yn 2008-2009, gyda gwerthusiadau i fod i gael eu cyhoeddi wrth iddynt ddod ar gael^{3/4}. Roedd datganiad polisi gan y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ddiweddarach yn 2009⁵ yn annog partneriaid cyfiawnder troseddol lleol i ddatblygu trefniadau IOM.
- 2.7 Roedd canolbwyntio ar yr unigolyn, boed hwy'n destun goruchwyliaeth statudol neu beidio, yn ddatblygiad arwyddocaol i Ymddiriedolaethau Prawf yn 2008. Mae datblygu amodau trwyddedu a goruchwyllo i'r rheini a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y ddalfa, fel y pennir yn Neddff Adsefydlu Troseddwy 2014, yn golygu y bydd y mwyafrif o'r rheini sy'n destun IOM yn y dyfodol o dan rhyw ffurf o oruchwyliaeth statudol.
- 2.8 Gwahaniaeth arall rhwng IOM a'r ymyriadau statudol eraill a gynigir gan Ymddiriedolaethau Prawf yw fod y dull yn annog cyswllt mwy dwys rhwng darparwyr gwasanaethau a throseddwy nag sy'n ofynnol gan yr isafswm safon genedlaethol.
- 2.9 O safbwynt plismona, roedd IOM yn ymestyn ymhellach y rheidrwydd i weithio gyda phartneriaid i reoli'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o droseddu yn lleol a, thrwy'r dull hwn, lleihau troseddu. Mae'r dull cydweithredol hwn yn ategu pwyslais mwy traddodiadol ar fathau o droseddu a/neu yr amgylcheddau lle mae troseddu'n digwydd.
- 2.10 Rhagwelwyd y byddai'r heddlu a'r gwasanaeth prawf yn rhan ganolog o IOM, ond y byddai llwyddiant yn dibynnu hefyd ar gyfraniad cadarnhaol gan yr awdurdod lleol, darparwyr gwasanaethau iechyd ac amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau eraill. Y nod oedd creu strwythur mwy ystyrlon ar gyfer rheoli troseddwy cyson. Yn 2010⁶ cyhoeddodd y Llywodraeth set o egwyddorion. Yr egwyddorion oedd:
- 'Pob partner yn mynd ati gyda'i gilydd i drechu troseddwy'
 - 'Cyflawni ymateb lleol i broblemau lleol'
 - 'Troseddwy yn wynebu eu cyfrifoldeb neu wynebu'r canlyniadau'
 - 'Gwneud defnydd gwell o raglenni a threfniadau llywodraethu sy'n bod eisoes'
 - 'Mae pob troseddwr sy'n peri risg uchel o achosi niwed difrifol a/neu aildroseddu "o fewn y cwmpas".'
- 2.11 Caiff IOM ei atgyfnerthu gan set o egwyddorion, yn hytrach na manylebau gorfodol manwl. O ganlyniad, mae pob ardal wedi dyfeisio ei ymateb unigryw ei hun. Felly, credwn mai'r ffordd orau, yn gyffredinol, o ddisgrifio IOM yw fel ffordd o weithio gyda throseddwy, neu 'ddull' o'u rheoli.
- 2.12 Mae'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awyddus i hyrwyddo'r dull IOM fel fframwaith strategol, yn hytrach na set fanwl o weithdrefnau a phrosesau. Yn wahanol i ofynion y cynllun PPO, nid oes unrhyw ofynion adrodd canolog na dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer IOM. Nid oes unrhyw ofyniad bod yn rhaid i ardaloedd gael

cynllun IOM, na chanllawiau ar y maint daearyddol neu'r boblogaeth y dylid ei gynnwys o fewn unrhyw gynllun.

- 2.13 Diben IOM oedd cynorthwyo i gyflawni dau amcan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o leihau troseddu a lleihau aildroseddu; mae'r prif amcanion hyn yn dal ar waith.
- 2.14 Dangosodd arolwg gan y Swyddfa Gartref o IOM ym mis Medi 2013⁷ fod gan bron bob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, a ymatebodd, drefniadau IOM; er hynny, dim ond 181 allan o 292 o ddychweliadau posibl a dderbyniwyd, sy'n golygu nad oedd unrhyw ddychweliadau o 37% o ardaloedd.
- 2.15 Nid oedd y cynllun PPO na'r dull IOM yn cynnwys diffiniad pendant o broffil y troseddwy'r i'w targedu. Roedd y cynllun PPO wedi ei alinio fel arfer â blaenoriaethau lleol yr heddlu ar y pryd – sef, yn nodweddiadol, mynd i'r afael â 'troseddu meddiangar difrifol', fel arfer byrgleriaeth a lladrad. Gwahaniaeth pwysig rhwng y dull IOM a'r cynllun PPO oedd graddfa'r uchelgais; dangosodd canllawiau y gallai'r cohort IOM fod pum gwaith maint y cohort PPO, ymestyn ymhellach i'r categorïau troseddu meddiangar difrifol, gan ychwanegu'r rheini â risg uchel o achosi niwed difrifol a grwpiau blaenoriaeth eraill a ddiffiniwyd yn lleol.
- 2.16 Ar y cychwyn, Swyddfeydd Rhanbarthol y Llywodraeth a Chyfarwyddwyr Rheoli Troseddwy'r oedd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu IOM. Cafodd y strwythurau hyn eu diddymu wedyn ac anogwyd partneriaethau lleol i sefydlu eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Arweiniodd hyn at fwy o amrywiaeth rhwng gwahanol ddulliau lleol.
- 2.17 Mae'r Swyddfa Gartref yn dal i fod wedi ymrwmo i'r cysyniad o fframwaith strategol yn hytrach na dull mwy penodedig. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn y rhaglen *Trawsnewid Adsefydlu*, hefyd yn nodi ei bod yn ymrwmo i gadw ac adeiladu ar y gwaith da a wnaed eisoes gan asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i reoli troseddwy'r yn y ffordd fwyaf effeithiol, er enghraifft o dan drefniadau IOM⁸. I gyflawni hyn, bydd angen i holl ddarparwyr gwasanaethau prawf, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gyfrannu at IOM.

Casgliad

- 2.18 Er yr ymddengys fod dau nod IOM (lleihau troseddu a lleihau aildroseddu) yn gyson, mae iddynt y potensial o yrru gwahanol ymddygiadau sefydliadol a chynnig graddfa sylweddol wahanol o wobrau.
- 2.19 O safbwynt y Swyddfa Gartref ac o safbwynt yr heddlu, mae'r dull IOM yn cynnig cyfle diamwys o gynorthwyo i leihau'r troseddu sy'n digwydd mewn ardal. Mae mynd ati'n fwriadol i dargedu'r rheini sy'n debygol iawn o aildroseddu a'u helpu hwy i ymatal, neu gael gwell gwybodaeth sy'n galluogi iddynt gael eu dal yn gyflym pan fyddont yn troseddu, yn debygol o gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Mae hyn yn lleihau'r nifer o ddiodefwy'r ac yn arbed adnoddau sylweddol wrth ymchwilio i droseddu a phrosesu troseddwy'r o ganlyniad i hynny. Mae, felly, achos cryf iawn dros fuddsoddi yn y math hwn o ddull.
- 2.20 O safbwynt y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Prawf, mae pethau'n llai eglur. Mae'r dull o fesur perfformiad wrth leihau aildroseddu gan unigolyn yn llawer iawn culach ei ddiffiniad. Mae dau fesur a ddefnyddir yn gyffredin – y mesur deuaidd, (a gafodd y person ei ailgollfarnu mewn cyfnod penodol) a'r mesur amllder (pa mor aml y cafodd y person ei ailgollfarnu yn ystod cyfnod penodol). Mae ymchwil i'r ffordd y mae'r rheini sy'n cael eu collfarnu'n aml yn ymatal yn y pen draw rhag troseddu yn awgrymu bod aildroseddu gan unigolion fel arfer yn arafu'n raddol, yn hytrach na pheidio'n sydyn⁹.

- 2.21 Mae'n gwbl bosibl, yn sgil mwy o weithgareddau rhwystro/gorfodi sy'n gysylltiedig â'r dull IOM, y bydd cynnydd yn y ganran o droseddwr a reolir sy'n cael eu hailgolfarnu yn ôl y mesur deuaidd. Gallai hyn fod yn wir, er bod yr amllder y cânt eu hailgolfarnu ostwng, gan roi methiant ymddangosiadol ar y mesur cyntaf a llwyddiant ar yr ail.
- 2.22 I'r heddlu, mae'r ddau amcan o adsefydlu neu orfodi'n cynnig cyfle i arbed adnoddau mewn rhannau eraill o'u gwaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. I'r Gwasanaeth Prawf, ni fydd y naill amcan na'r llall yn cael fawr o effaith ar y galw am wasanaethau yn y tymor byr na'r tymor canolig. Os caiff y troseddwr ei adsefydlu, gall fod lleihad bach iawn yn nwyster y lefel o oruchwyliaeth; os cânt eu hailgolfarnu, byddant yn dal i fod angen adnoddau'r Gwasanaeth Prawf, er y gallai hynny fod o rywle arall yn y system. Dim ond mewn cyfnod mwy hir dymor y bydd adsefydlu neu ailgolfarnu'r troseddwr yn cael effaith ar faint o waith sydd gan y Gwasanaeth Prawf.
- 2.23 Ymddengys fod y pwyslais ar reoli troseddwr unigol, yn ogystal â chanolbwyntio ar fathau o droseddau a/neu ardaloedd lle mae llawer o droseddu, yn cynnig potensial gwirioneddol i leihau troseddu, yn unol ag amcanion y Swyddfa Gartref a'r heddlu. Mae'r dull yn cynnig cyfle hefyd i gyrraedd targedau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Prawf ar gyfer lleihau aildroseddu. Fodd bynnag, gallai mwy o dargedu troseddwr o dan y bartneriaeth IOM arwain at nifer mwy yn cael eu hailgolfarnu. Mewn geiriau eraill, gall canolbwyntio mwy, fel bo'n addas, ar droseddwr a adnabuwyd, achosi i gyfradd aildroseddu unigolion godi. Gall y methiant ymddangosiadol hwn, mewn gwirionedd, fod yn ffurf o lwyddiant. Ni all unrhyw un dangosydd ddal y cymhlethdod hwn.
- 2.24 Mae egwyddor sylfaenol y dull IOM, sy'n datblygu o gynlluniau cynharach, yn cynrychioli dull esblygol synhwyrol o gyflawni polisi. Fodd bynnag, mae'r ffaith na chafodd gofynion y cynllun Troseddwr Cyson a Throseddwr â Blaenoriaeth erioed eu diddymu wedi arwain at rywfaint o ddryswch lleol ynghylch blaenoriaethau, rhywbeth yr ydym yn ei archwilio ymhellach yn yr adroddiad hwn.
- 2.25 O dan y cynigion *Trawsnewid Adsefydlu*, bydd llawer o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd o dan y dull IOM yn disgyn y tu allan i gylch gwaith y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol newydd ac yn gorwedd gyda'r darparwyr sector preifat a sector gwirfoddol newydd. Rhaid i'r contractau gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gydnabod hyn a sicrhau eu bod wedi'u cymell yn addas i gyflwyno IOM. Bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn parhau i fod â rôl sylweddol i'w chwarae mewn IOM, o safbwynt gweithgaredd gorfodi i bob troseddwr a chyfrifoldeb rheoli achos i'r rheini a aseswyd fel rhai sy'n peri Risg uchel o Niwed Difrifol.

3. Strwythur trefniadau Rheoli Troseddwy'r Integredig

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwahanol lefelau datblygiad y dull IOM yn y gwahanol ardaloedd a arolygwyd.

Ffeithiau allweddol

Caiff y mwyafrif o ddulliau IOM eu harwain gan yr heddlu gydag amrywiol raddau o fewnbwn gan bartneriaethau cyfiawnder troseddol eraill, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau arbenigol.

Roedd cynlluniau IOM yn aml wedi 'brandio' eu dull gydag enw lleol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth.

Mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gan bartneriaid i ymdrin ag anghenion troseddwy'r yn rhan annatod o gyflwyno IOM.

Mae'r rheini sy'n destun IOM yn aml yn rhai sydd â phroblemau cymhleth ac sy'n cael cysylltiadau lluosog â'r system cyfiawnder troseddol.

Trefniadau strwythurol ar gyfer IOM ar lefel leol

- 3.1 Ymddangosai cwmpas ac uchelgais dull IOM yn lleol fel petai'n ddibynnol ar ymrwymiad gweithredol uwch arweinwyr, megis y Comander Heddlu lleol neu'r Prif Swyddog Cynorthwyol o'r Gwasanaeth Prawf.
- 3.2 Canfuom fod pedair ardal wedi mabwysiadu 'brand' lleol ar gyfer eu dull, er mwyn ei gwneud hi'n eglur ei fod yn fenter bartneriaeth a'i fod yn cynnig rhywbeth ychwanegol at y dull arferol o reoli troseddwy'r. Er enghraifft, roedd dull IOM Norfolk wedi cael ei frandio fel '*180° Norfolk*', gyda'r is-bennawd '*working together to protect communities*'.
- 3.3 O'r ddwy ardal lle nad oedd IOM wedi datblygu cymaint, roedd un ardal wedi rhoi'r gorau i fuddsoddi yn y rhaglen PPO ac, yn y misoedd yn arwain at waith maes yr arolygiad, roeddent yn ceisio ei ailgychwyn a'i ehangu i fod yn ddull IOM. Roedd ardal arall wedi lansio dull IOM yn swyddogol naw mis cyn yr arolygiad, ond wedi'i chael hi'n anodd i'w wneud yn effeithiol. Yn y ddwy ardal hyn, roedd staff y Gwasanaeth Prawf weithiau heb fod yn ymwybodol o'r statws IOM a ddyfarnwyd i'r troseddwr gan y 'bartneriaeth' IOM o dan arweiniad yr heddlu, a gwelsom sawl enghraifft o fethiant i gyflwyno unrhyw wasanaethau ychwanegol na rhannu gwybodaeth ddefnyddiol.
- 3.4 Ym mhob un o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy, swyddog heddlu oedd y rheolwr gweithredol arweiniol, er bod yn arferol ryw ffurf o gydreolaeth weithredol a oedd yn cynnwys y Gwasanaeth Prawf. Ym mhedair o'r ardaloedd hyn roedd y rheolaeth strategol hefyd yn amlwg yn cael ei arwain gan yr heddlu. Dim ond mewn tair ardal yr oedd mewnbwn cryf gan y Gwasanaeth Prawf ar lefel strategol.
- 3.5 Roedd cysylltiad cryf rhwng presenoldeb rheolwr gweithredol neilltuedig wedi ei adnabod yn glir, a oedd yn ennyn parch y tîm a'u harweinwyr strategol, ac asesid gennym fod trefniant IOM lleol yn un cryf.
- 3.6 Roedd gweledigaeth y rheolwr gweithredol hefyd yn ffactor allweddol. Roedd y mwyafrif o'r rheolwyr gweithredol y siaradasom â hwy ag ymrwymiad cryf i'r dull IOM ac roeddent yn cyd-drafod yn gyson â'u sefydliad eu hunain ac â'u partneriaid, er mwyn hyrwyddo

manteision y dull IOM a sicrhau bod pobl yn deall eu nodau. Roedd hyn yn cynnwys mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd briffio i staff o bob asiantaeth a chymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi swyddogion newydd.

- 3.7 Roedd pedair o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy wedi llwyddo i gyflawni graddau uchel o gydleoli, gyda'r mwyafrif o'r staff o'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaethau partneriaeth wedi'u lleoli yn yr un adeilad. Mewn ardaloedd mwy gwledig, roedd hi'n aml yn amhosibl cydleoli mewn pwynt canolog. O ganlyniad, roedd staff IOM weithiau'n gweithredu mewn canolfan fach mewn lleoliad arall, gyda chyn lleied ag un swyddog heddlu ac un aelod y staff y gwasanaeth prawf. Roedd hyn yn ateb ymarferol, er ei bod weithiau'n golygu nad oedd fawr o ddarpariaeth wrth gefn pan oedd staff ar wyliau neu'n absennol am unrhyw reswm arall.
- 3.8 Mewn rhai achosion, roedd staff yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y cohort IOM. Mewn rhai ardaloedd, roedd rheolwyr achos nad oedd yn aelodau o dîm IOM yn dal nifer cyfyngedig o achosion IOM. Nid oedd hyn o angenrheidrwydd yn amharu ar ansawdd y berthynas rhwng y partneriaid nac ar y gwaith ei hun.
- 3.9 Yn ogystal â'r heddlu a staff y Gwasanaeth Prawf, roedd gan bob ardal gysylltiadau â darparwyr partner i helpu troseddwy'r i dorri allan o'r cylch o drosedd, ond nid oedd hyn wedi datblygu'n dda mewn dwy ardal. Roedd y graddau'r oedd y darparwyr hyn yn eu hystyried eu hunain yn rhan annatod o'r IOM, yn hytrach na dim ond darparu gwasanaeth i'r IOM, yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd, roedd gweithwyr partneriaethau wedi eu lleoli yn yr un lle, yn mynd i gyfarfodydd wythnosol ac amlwg yn rhan o'r tîm. Mewn ardaloedd eraill, nid oedd y berthynas wedi ei diffinio mor ffurfiol. Mewn amryw o leoedd, roedd yr awdurdod lleol wedi darparu'r cyllid i'r heddlu, staff y Gwasanaeth Prawf neu bartneriaid o'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau arbenigol.
- 3.10 Roedd sicrhau bod y staff iawn yn cael eu secondio i'r tîm IOM hefyd yn fater yr oedd arweinwyr yn ymwybodol ohono. Ymddangosai i ni fod isafswm maint i dîm a oedd yn angenrheidiol er mwyn ennill arbedion. Nid oedd pob ardal a arolygwyd wedi cael y màs critigol hwnnw, sef cael digon o staff i weithio'n effeithiol gyda cohort digon mawr o droseddwy'r i gael effaith ar batrymau lleol o drosedd.

Sylw gan Dditectif Uwch-arolygydd gyda chyfrifoldeb IOM:

"Rhan o lwyddiant ein tîm yw cael y bobl iawn yn gwneud y gwaith."

- 3.11 Roedd tri o'r chwe chynllun IOM wedi cydleoli gwasanaethau cyffuriau ac yn cyd-drafod yn ddigon da â darparwyr gwasanaethau cyffuriau i sicrhau bod yr ystod lawn o gyfleoedd triniaeth cyffuriau ar gael i ddefnyddwyr y gwasanaethau o fewn graddfeydd amser rhesymol.
- 3.12 Roedd IOM Norwich wedi sicrhau aelod o staff o'r Adran Gwaith a Phensiynau i roi cyngor ac i ddatrys problemau budd-daliadau, rhoi ymyriadau i aelodau o'r cohort ac adeiladu cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol i wella rhagolygon y cohort o gael gwaith cyflogedig.
- 3.13 Roedd gan Tameside amryw o fentor gymheiriaid a oedd, ar ôl cwblhau cwrs hyfforddiant, yn gallu cynnig cymorth a chanllawiau ymarferol i aelodau'r cohort IOM. Roeddent hefyd yn gallu darparu nifer o weithgareddau ymarferol yn wirfoddol, megis cerdded mynyddoedd neu weithgareddau ffitrwydd eraill a drefnwyd i wneud defnydd cadarnhaol o amser rhydd.

- 3.14 Roedd y timau IOM hynny oedd â chysylltiadau da gyda darparwyr tai cymdeithasol yn gallu helpu cynllunio ar gyfer rhyddhau carcharorion a fyddai, fel arall, yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau.
- 3.15 Rhwng popeth, canfuom agwedd gadarnhaol at rhannu gwybodaeth yn briodol rhwng partneriaid, gyda chyfnewidiadau anffurfiol aml iawn a chyfarfodydd briffio rheolaidd. Fodd bynnag, mewn un ardal, nid oedd staff y Gwasanaeth Prawf yn rhan o gyfarfodydd a oedd yn ymwneud ag achosion anstatudol ac mewn achos arall, nid oedd rheolwr achosion yn heddlu wedi sylweddoli bod achos a adnabuwyd mewn gwirionedd o dan oruchwyliaeth statudol yn y Tîm Troseddau Ieuencid.
- 3.16 Nid oedd gan yr un o'r ardaloedd yr ymwelasom â hwy system wybodaeth a oedd yn diwallu anghenion pawb o'r partneriaid ar gyfer cofnodi gwybodaeth yn amgylchiadau lluosog ac amrywiol achosion IOM. Gallai hyn fod yn achos mân enghreifftiau o aneffeithlonrwydd, ond ni ymddangosi ei fod yn peri problemau na ellir eu goresgyn.

Troseddwyr a reolir o dan IOM

- 3.17 Mae unigolion sy'n destun dull IOM yn aml yn byw bywydau ansefydlog, gyda rhyngweithiadau lluosog â'r system cyfiawnder troseddol. Gwelsom lawer o achosion a oedd, o fewn mater o fisoedd, yn destun gorchmynion cymunedol, cadw ar remand yn y ddalfa, cael eu hail alw i'r ddalfa o dan drwydded neu'n cael eu dedfrydu i garchar. Roedd graddau eu cydweithrediad â gwasanaethau adsefydlu'n amrywio ar adegau.
- 3.18 Yn Tameside, roedd bron i hanner y sampl IOM yn gwasanaethu dedfrydau o garchar ar y pryd; roedd cynlluniau eraill yn gyffredinol yn diarddel troseddwyr a oedd yn mynd i'r carchar ac, o'r herwydd, ychydig iawn oedd ganddynt. Yn y mwyafrif o leoedd, y Gwasanaeth Prawf oedd yn arwain elfennau adsefydlu'r dull IOM, ond weithiau gan yr heddlu'r oedd y swyddogaeth hon.
- 3.19 Roedd cyfran o'r achosion a arolygwyd fel rhai IOM wedi cael eu hadnabod fel achosion PPO cyn dyfodiad y dull IOM ac wedi cael eu trosglwyddo iddo cymaint â phum mlynedd cyn hynny; roedd eraill wedi cael eu dewis yn ddiweddar.
- 3.20 Roedd gan rai ardaloedd feini prawf dewis clir iawn, tra bod eraill yn defnyddio dull mwy cyffredinol. Mewn un ardal nid oedd unrhyw adolygiad systematig o'r cohort wedi bod ers mwy na chwe mis, tra bod ardaloedd eraill yn ei adolygu bron yn ddyddiol, gan reoli rhestr y cohort a sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y bobl gywir. Mewn un ardal, roedd pob un o'r unigolion a oedd yn cael eu rheoli o dan y dull yn rhai a oedd yn cael eu diffinio fel PPOs.
- 3.21 Roedd nodau deuol y dull IOM, sef symbylu troseddwyr i newid lle bo'n bosibl a gorfodi cydymffurfiaeth lle bo angen (y cyfeirir atynt yn aml gan gynlluniau IOM fel dull 'abwyd a ffon') yn golygu bod yn rhaid i'r rheolwr achos (a'r partneriaid) allu newid cyfeiriad ac addasu'n gyflym wrth i amgylchiadau ddatblygu.

Casgliad

- 3.22 Mewn rhai lleoedd, roedd y dull IOM wedi sefydlu'n dda iawn fel dull a oedd yn cael ei dderbyn a'i werthfawrogi ar gyfer rheoli troseddwyr a lleihau troseddu yn yr ardal; roedd eraill nad oedd ond prin yn gweithredu.

- 3.23 Er y byddem yn disgwyl i natur y dull IOM amrywio rhwng ardaloedd gyda phroffiliau gwahanol, roedd graddau'r gwahaniaethau'n sylweddol iawn. Roedd llawer o ardaloedd wedi 'brandio' eu dull gydag enw lleol. Roedd y brandio lleol hwn yn cael yr effaith o godi amlygrwydd y dull, gan arwain at fwy o ymwybyddiaeth ac eglurder o fewn y partneriaethau a'r gymuned ehangach.
- 3.24 Rhaid i unrhyw gynllun IOM llwyddiannus gyflawni nifer o swyddogaethau. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad strategol, arweiniad gweithredol, cydgysylltu, rheoli gwybodaeth, swyddogaeth ddadansoddi, datblygu partneriaethau, cyfathrebu, cysylltu, a rheoli troseddwy. Gan fod y dulliau IOM a arolygwyd yn amrywio cymaint, nid oes unrhyw strwythur staffio safonol. Mewn rhai ardaloedd, roedd llawer o'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni gan un person.
- 3.25 Yr heddlu bron bob amser oedd yr asiantaeth arweiniol yn yr ardaloedd a arolygwyd, gydag ymrwymadau adnoddau amrywiol gan bawb o'r partneriaid. Er mwyn i'r dull IOM gael effaith sylweddol, mae'n angenrheidiol ei fod yn cyrraedd graddfa ddigonol i alluogi i'r holl swyddogaethau gael eu cyflawni'n gyson ac i sicrhau bod nifer digonol o droseddwy yn cydweithredu er mwyn cael effaith ar lefelau troseddu.
- 3.26 Mae cyflwyno dull IOM yn gofyn am adnoddau ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol dros gyfnod sylweddol. Lle na cheir y rhain, mae'n annhebygol y gall trefniadau IOM cryf ffynnu.

4. Adnabod a thargeddu

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn archwilio'r ffyrdd y mae cynlluniau IOM unigol yn adnabod troseddwy'r posibl ar gyfer y dull IOM ac yn archwilio nodweddion y troseddwy'r hynny.

Ffeithiau allweddol

Ychydig o gysondeb sydd rhwng ardaloedd a'i gilydd o ran sut y caiff troseddwy'r eu hadnabod ar gyfer dull IOM.

Mae rhai trefniadau IOM wedi cymryd mantais lawn o'r hyblygrwydd a ganiateir o dan y polisi IOM o ddatblygu eu gweledigaeth eu hunain o'r arferion gorau. O ganlyniad i'r hyblygrwydd hwn, mae'r achosion a reolir o dan IOM yn amrywio'n sylweddol.

Mae gan y mwyafrif o ardaloedd broses glir, a honno'n broses a ddilynir ar y cyd, ar gyfer adnabod rhai ar gyfer IOM, ar sail gwybodaeth a blaenoriaethau lleol.

Yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf sy'n rhoi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n sail i'r penderfyniad i gynnwys yn y cohort IOM. Caiff y mwyafrif o achosion IOM eu hadnabod ar ôl dedfrydu ac ychydig ohonynt sydd ar orchmynion cymunedol.

Er mai aelod o staff y Gwasanaeth Prawf yw'r rheolwr achos yn fwyaf cyffredin, mewn rhai lleoedd mae'r heddlu'n chwarae rhan sylweddol yn yr ymdrechion i adsefydlu troseddwy'r, gan ddefnyddio dulliau gysylltir yn bennaf gyda gweithgaredd traddodiadol y Gwasanaeth Prawf.

Adnabod achosion IOM

- 4.1 Mae egwyddorion allweddol IOM, sydd wedi eu cyhoeddi, yn pwysleisio: 'Mae pob troseddwr sy'n peri risg uchel o achosi niwed difrifol a/neu aildroseddau "o fewn y cwmpas".' Er nad oes unrhyw ddiffiniad clir o ystyr 'o fewn y cwmpas', mae'n rhesymol tybio bod hyn yn golygu bod achosion o'r fath naill ai'n cael eu rheoli o dan ddull IOM, neu o leiaf yn cael eu hystyried ar gyfer hynny.
- 4.2 Mae'r egwyddorion yn pwysleisio ymhellach 'Pob partner yn mynd ati gyda'i gilydd i drechu troseddwy'r a'r pwysigrwydd o ddefnyddio'r dull IOM ar gyfer troseddwy'r a adnabyddir yn lleol sy'n gosod heriau penodol neu sy'n ddefnyddwy'r helaeth o wasanaethau cyfiawnder troseddol lleol, a hynny heb fod angen ystyried a ydynt yn bodloni'r meini prawf o fod naill ai'n peri risg uchel o niwed neu â thebygolrwydd uchel o aildroseddau.
- 4.3 Nid oedd cysylltiad yn aml rhwng adnabod achosion addas ar gyfer IOM a'r cam cyn-dedfrydu o deithiau troseddwy'r trwy'r system cyfiawnder troseddol. Nid oedd adroddiad cyn-dedfrydu perthnasol i'r ddedfryd ddiweddaraf wedi bod mewn 70% o achosion yn y sampl. Yr ystriaeth gychwynnol yn fwy arferol ar gyfer cynnwys mewn IOM oedd digwyddiad ar ôl dedfrydu. Dim ond 10% o'r sampl oedd yn destun gorchymyn cymunedol ar ddiwrnod yr arolygiad; o'r rhain, roedd llawer wedi bod yn y ddalfa am gyfnodau byr ers gwneud y gorchymyn.
- 4.4 Gwybodaeth yr heddlu oedd y prif ffactor wrth adnabod achosion IOM. Roedd hyn yn aml yn cael ei gefnogi gan ddefnydd matrices y cytunwyd arno, matrices a oedd yn pwysoli ffactorau penodol, megis y prif fath a drosedd a gyflawnwyd gan y troseddwr, yn unol â

blaenoriaethau lleol. Nid oedd pob matrix yn cynnwys data actiwaraidd sy'n deillio o'r Graddfa Ailgollfarnu Grwpiau Troseddwyr (*Offender Group Reconviction Scale - OGRS*) (offeryn actiwaraidd sydd wedi'i lunio i ddarogan tebygolrwydd grŵp o droseddwyr gyda hanes blaenorol yn aildroseddu o fewn cyfnod penodol). Roedd ardaloedd hefyd yn defnyddio gwahanol ffactorau yn eu cyfrifo; roedd rhai'n blaenoriaethu amllder arestio, tra bod eraill yn defnyddio amllder cyhuddo neu gollfarnu.

- 4.5 Dywed datganiad polisi 2009 fod 'troseddwyr ifanc eisoes yn cael eu rheoli gan ddefnyddio dull IOM trwy Dimau Troseddau Ieuenctid integredig amlasiantaeth. Yn y mwyafrif o leodd a arolygasom, canfuom fod y cysylltiadau rhwng arweinydd y tîm IOM a'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn wan. Lle cyfwelasom â rheolwyr achos Tîm Troseddau Ieuenctid y dywedwyd eu bod yn rheoli achosion a adnabuwyd fel rhai oedd yn perthyn i'r cohort IOM, nid oedd fawr o dystiolaeth o weithgaredd ychwanegol. Roedd rhai staff Timau Troseddau Ieuenctid nad oeddent yn gallu esbonio pam fod y plentyn neu berson ifanc yn y cohort, na pha wahaniaeth yr oedd hyn wedi'i wneud i'r gwaith o'u rheoli.
- 4.6 Roedd rhai Timau Troseddau Ieuenctid yn rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i'r cydgysylltydd IOM, ond nid oedd y mwyafrif yn gwneud hynny. Lle'r oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu, nid oedd fawr o dystiolaeth o weithredu y cytunwyd arno ac a gydgyssylltwyd, o ganlyniad i hyn. Ni olyga hyn nad oes gwaith adsefydlu amlasiantaeth da yn cael ei wneud gyda phlant a phobl ifanc a allai elwa o ddull IOM. Mae'n arwydd, fodd bynnag, nad yw gwaith o'r fath yn cael ei gyflawni'n unol â threfniadau IOM y cytunwyd arnynt, ac nad oedd yn elwa ychwaith ar y cyfleoedd rhwystro/gorfodi ychwanegol sy'n nodweddu IOM.

Achosion a reolir o dan IOM

- 4.7 Yn gyffredinol, roedd bron i 90% o atgyfeiriadau'n dod gan yr heddlu neu'r Gwasanaeth Prawf. Roedd yr achosion a oedd yn weddill yn cael eu hatgyfeirio gan weithwyr cyffuriau, Timau Troseddau Ieuenctid, carchar neu ffynonellau eraill nas cofnodwyd.
- 4.8 Yn ymarferol, roedd y mwyafrif o achosion yn cael eu rheoli ar y cyd i ryw raddau gyda'r ymarferydd arweiniol yn dod o'r Gwasanaeth Prawf mewn tri chwarter o'r achosion. Roedd y chwarter a oedd yn weddill yn cael eu rheoli gan yr heddlu fel arfer.
- 4.9 Cafodd ychydig dros hanner yr achosion a arolygwyd eu hadnabod fel PPOs (o fewn ystod o 22%-100% mewn ardaloedd unigol). Roedd bron i draean yr achosion nad oeddent yn destun goruchwyliaeth statudol, megis gorchymyn cymunedol neu drwydded ar ôl carchar (rhwng 17%-50%).
- 4.10 Ar y diwrnod yr arolygwyd yr achosion, roedd:
- 28% yn y ddalfa'n gwasanaethu dedfryd
 - 9% ar remand yn y ddalfa
 - 22% ar drwydded
 - 10% ar orchymyn cymunedol
 - 30% yn y gymuned a heb fod yn destun goruchwyliaeth statudol.²
- 4.11 Er gwaethaf y gyfran hon o droseddwyr anstatudol, roedd 83% o'r sampl wedi bod yn destun rhyw ffurf o oruchwyliaeth statudol ers ymuno â'r cohort IOM. O'r sampl, roedd 59% wedi cael eu dedfrydu i fwy na 12 mis o garchar.

² Nid yw'r cyfanswm yn 100%, gan fod y ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.

4.12 Roedd staff IOM wedi asesu'r Risg o Niwed Difrifol ymysg y sampl fel a ganlyn:

- 19% isel
- 53% canolig
- 21% uchel
- 5% heb ddsbarthiad clir/heb gael eu hasesu.ⁱⁱ

Roeddem yn cytuno'n fras â'r dosbarthiadau hyn. Roedd dros hanner yr achosion a aseswyd mewn un ardal yn peri Risg o Niwed Difrifol. Roedd pedair ardal gydag un achos yn unig o'r fath yn y sampl.

4.13 Lle'r oedd hyn yn cael ei gofnodi, cyfartaledd sgôr OGRS o ailgollfarnu o fewn blwyddyn am aildroseddu cyffredinol oedd 62%.

4.14 Y mathau mwyaf cyffredin o droseddau a grybwyllwyd yn y sampl oedd:

- byrgleriaeth (48%)
- trais yn erbyn y person (22%)
- dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn (20%)
- lladrad (9%)
- troseddau eraill (19%)³.

(Mewn un ardal, roedd bron y cyfan o'r sampl wedi cael eu collfarnu am fyrghleriaeth, gan adlewyrchu blaenoriaeth leol).

4.15 I grynhoi, canfuom fod ardaloedd wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau wrth ddewis achosion i gael eu rheoli o fewn dull IOM, y gellid eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Dull holl-gwmpasol; pob troseddwr o fewn y cwmpas, gan gynnwys rhai sy'n achosi niwed mawr.
- Dull sy'n addas yn lleol, wedi'i seilio'n bennaf ar flaenoriaethau lleol.
- Dull nad oedd wedi'i integreiddio'n ddigonol.

Dull holl-gwmpasol

4.16 Roedd Tameside wedi mabwysiadu dull IOM cydweithredol a oedd yn cymryd y canllawiau ar 'o fewn y cwmpas' yn llythrennol. Roedd achosion yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y cohort IOM os oeddent wedi cael eu hasesu fel rhai â risg uchel o niwed lle'r oedd y math o drosedd yn drais yn erbyn y person (heb gynnwys trais rhywiol), fel yr oedd pob achos a aseswyd fel rhai oedd â sgôr OGRS uchel. Roedd proses y cytunwyd arni lle'r oedd yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf a phartneriaid eraill yn atgyfeirio achosion oedd â'r potensial o fod yn gymwys i bwynt canolog, a lle'r oedd asesiad trylwyr o addasrwydd yn cael ei wneud gan ddefnyddio'r holl ddata perthnasol gan systemau gwybodaeth yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Roedd achosion addas wedyn yn cael eu mabwysiadu.

4.17 Roedd y bartneriaeth hon wedi cychwyn datblygu dull IOM hefyd ar gyfer ymdrin â throseddwr benywaidd oedd ag anghenion uchel, ond nid oeddent o angenrheidrwydd yn cyrraedd y meini prawf o risg uchel o niwed neu â thebygolrwydd o aildroseddu. Ni welodd yr arolygwyr unrhyw achosion o'r math hwn yn y sampl.

³ Roedd rhai achosion wedi adrodd mwy nag un drosedd gyfredol sy'n golygu nad yw'r cyfanswm yn adio i 100%

4.18 Ar ôl adnabod manteision cydweithio, roedd y bartneriaeth wedi cychwyn gweithredu'r egwyddorion i grŵp ehangach o droseddwyr. Mae'r arfer hon yn gyson â'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer IOM. Mae'n cynyddu manteision posibl dull IOM ac yn ymestyn ei ddefnydd ymhell y tu hwnt i'r cohort PPO.

Dull sy'n addas yn lleol

4.19 Roedd gan dair o'r ardaloedd a gafodd eu harolygu ryw ffurf o ddull cydweithredol o adnabod achosion IOM posibl. Roedd hyn fel arfer yn cynnwys atgyfeirio at gydgyssylltydd neu reolwr a enwyd a rhyw ffurf o gyfarfod mabwysiadu i gadarnhau'r penderfyniad. Nid oedd defnydd llawn yn cael ei wneud bob amser o'r offerynnau actiwaraid ar gyfer asesu tebygolrwydd o aildroseddu, yn fwyaf nodedig OGRS. Fodd bynnag, roedd y dull hwn yn gyffredinol effeithiol wrth adnabod pobl addas i fod yn destun y dull IOM ac roedd yn gyson â'r egwyddorion o benderfynu'n lleol. Mewn rhai o'r ardaloedd hyn, roedd tystiolaeth i awgrymu bod troseddwr a allai fod wedi elwa o ddull IOM, ond nad oeddent yn bodloni'r meini prawf lleol, wedi cael eu gadael ar ôl. Er eu bod yn gyson ag egwyddorion IOM, nid oedd yr ardaloedd hyn wedi gwneud defnydd llawn o fanteision posibl IOM.

Dull nad oedd yn ddigon integredig

4.20 Roedd dwy o'r chwe ardal heb ddatblygu trefniadau eto i sicrhau eu bod yn cydweithio'n rheolaidd i adnabod unigolion â'r potensial o fod yn destun IOM. Nid oeddent wedi cymryd y cyfle i ehangu eu cynllun PPO a oedd ganddynt yn flaenorol i gyflawni amcanion ehangach. Roedd y cyfathrebu rhwng partneriaid yn wael ar adegau. Nid oedd cyfiawnhad dibynadwy dros ddewis targedau ac anaml yr oedd yr offer actiwaraid a oedd ar gael yn cael eu defnyddio. Nid oedd y math hwn o ddull wedi elwa ar fanteision posibl IOM.

Casgliad

4.21 O'r chwe ardal y gwnaethom eu harolygu, roeddem yn gallu adnabod tri gwahanol ddull o adnabod achosion addas ar gyfer IOM. Dim ond un oedd yn gwneud defnydd llawn o fanteision posibl IOM; roedd un arall yn gyson ag egwyddorion IOM ac yn dderbyniol. Er nad oes unrhyw ffordd benodedig o strwythuro IOM, roeddem o'r farn fod y trydydd dull yn aneffeithiol.

4.22 Roedd gan dair o'r ardaloedd yr ymwelwyd â hwy weledigaeth ynghylch proffil achosion i gael eu rheoli o dan y dull IOM lleol. Roedd un yn gyson wedi cynnwys achosion Risg Uchel o Niwed Difrifol, roedd un arall wedi blaenoriaethu'r drosedd o fyrgleriaeth ac roedd un nad oedd ond wedi cynnwys achosion y rhoddwyd statws PPO iddynt. Mae'r penderfyniadau hyn ynghylch pa achosion i weithio gyda hwy wedi effeithio'n sylweddol ar y data yr ydym wedi ei gasglu.

4.23 Rydym yn sylweddoli hefyd o ymchwil a thystiolaeth arolygu arall, fod gan ardaloedd eraill flaenoriaethau lleol ac idiosyncratiaethau ynghylch yr achosion y maent yn gweithio gyda hwy. Mewn rhai ardaloedd, efallai fod cyfran sylweddol o achosion sy'n flaenoriaeth leol heb debygolrwydd uchel o aildroseddu. O ganlyniad, dylid cymryd gofal mawr wrth geisio cymharu dulliau IOM neu gyffredinoli ynghylch eu perfformiad.

5. Asesu a chynllunio

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn edrych ar y gwaith a wnaed i asesu'r camau a oedd yn angenrheidiol i reoli a lleihau troseddu gan y rheini sy'n destun dull IOM a'r cynllunio a wnaed gyda hwy i gyflawni hyn. Mae hefyd yn ystyried anghenion hyfforddiant staff IOM.

Ffeithiau allweddol

Yn aml, roedd angen datblygu pellach o ran cynllunio ffurfiol y gwaith gydag achosion IOM.

Waeth beth fo'u dynodiad, roedd bron pawb o'r staff y cyfwelwyd â hwy yn mynegi'r farn mai ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'r troseddwr oedd y sylfaen ar gyfer cyflawni newid ystyrion yn eu bywydau.

Lle'r oedd yr heddlu'n gyfrifol am waith adsefydlu gyda throreddwyr, roeddent yn aml heb gael hyfforddiant digonol i'w galluogi hwy i wneud hynny.

Ymddengys fod gan y rheini sy'n destun IOM broffil o anghenion troseddu sy'n wahanol ac yn fwy problematig na llwyth achosion prif ffrwd y Gwasanaeth Prawf.

Asesu a chynllunio

- 5.1 Yn y mwyafrif o achosion roedd hi'n amlwg bod trafodaeth lawn a manwl wedi bod rhwng y rheolwr achos a'r troseddwr ynghylch pam yr oeddent wedi cael eu hadnabod fel rhai addas ar gyfer y cynllun IOM.
- 5.2 Roedd rhan gyntaf yr asesiad fel arfer ar ffurf 'cynnig' i'r troseddwr a oedd yn ei gwneud hi'n glir fod y tîm IOM yn fodlon ac yn gallu darparu gradd sylweddol o gyfleoedd ychwanegol am wasanaethau adsefydlu a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol yn gyfnewid am ymgais wirioneddol i ymatal rhag troseddu. Roedd hyn yn cael ei ddilyn fel arfer gyda'r troseddwr yn cael ei gynghori petai'r cynnig yn cael ei wrthod y byddai ef neu hi'n destun lefel uwch o graffu, gyda chamau cyflym ac effeithiol gan yr heddlu i ddod ag unrhyw droseddu pellach i'r llys, gan arwain at gosbau pellach. Roedd hyn yn gyson â'r egwyddor 'Troseddwr yn wynebu eu cyfrifoldeb neu wynebu'r canlyniadau'.
- 5.3 Carchar oedd y lle mwyaf cyffredin i'r cyswllt cychwynnol ddigwydd rhwng staff IOM a'r sawl oedd yn destun iddo. Roedd y cyfarfod yn aml yn cael ei gynnal ar y cyd gan yr heddlu a staff y Gwasanaeth Prawf. Roedd amseru'r ymweliad hwn yn amrywio o le i le gyda rhai ardaloedd yn ceisio cychwyn ffurfio cyswllt yn fuan ar ôl dedfrydu, tra bod hyn yn digwydd yn agos i'r dyddiad rhyddhau mewn ardaloedd eraill.

Sylw gan swyddog heddlu IOM

"Rydym yn mynd i'w gweld yn y carchar i ddweud wrthynt eu bod wedi cael eu hadnabod fel IOM. Rydym yn dod i'w hadnabod rywfaint, dw i'n dweud wrthynt fy mod i o'r IOM. Rydym yn gofyn os oes arnynt eisiau help i newid eu bywydau ac yn dweud wrthynt y mathau o bethau y gallwn ni eu gwneud. Wedyn rydym yn ei gwneud hi'n glir beth fydd yn digwydd os na fyddant."

- 5.4 Roedd rheolwyr achos o'r farn fod adeiladu perthynas gyda'r troseddwr wrth gychwyn asesu yn gam cyntaf hanfodol tuag at gydweithredu llwyddiannus. Canfuom lawer o enghreifftiau o rheolwyr achos yn adeiladu perthynas dda gyda'r troseddwr a oedd yn eu helpu i gynnal cydweithrediad, yn enwedig pan oedd troseddwr mewn risg o ymddieithrio a lithro'n ôl i droseddu.
- 5.5 Lle'r oedd achosion yn destun goruchwyliaeth statudol gan reolwr achos gwasanaeth prawf, roedd tystiolaeth fod yr offeryn asesu System Asesu Troseddwr (*Offender Assessment System - OASys*) yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd. Yn gyffredinol, roedd hwn o ansawdd digonol, er ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau adsefydlu'r achos. Mewn achosion anstatudol roedd y trefniadau'n fwy amrywiol, ac roedd hynny'n ddealladwy. Nid oedd unrhyw fframwaith cyffredin ar gyfer asesu na chynllunio'r gwaith gyda'r achosion hyn.
- 5.6 Roedd rhai ardaloedd wedi datblygu eu prosesau eu hunain ar gyfer asesu a chynllunio achosion anstatudol. Roedd hyn yn aml ar ffurf nifer o 'lwybrau' a oedd yn cynrychioli meysydd o fywyd y troseddwr a oedd wedi cyfrannu at eu troseddu neu'n cynrychioli'r meysydd yr oedd angen gweithio arnynt, meysydd nodweddiadol oedd cyffuriau, alcohol, llety, perthnasau, agweddau a chyflogaeth. Roeddem o'r farn fod y rhain, er eu bod yn aml heb ddatblygu'n llawn nac yn soffistigedig, yn cynrychioli gwaith rhesymol a oedd wrthi'n datblygu.

Enghraifft o arfer dda

Roedd rheolwyr achos wedi cychwyn proses o ddefnyddio contractau i'r troseddwr eu harwyddo wrth gael ei ryddhau. Roedd y troseddwr yn arwyddo dwy ddogfen, un ar gyfer llety ac un ar gyfer profi am gyffuriau. Mae'r dogfennau'n nodi'n glir yr ymatebion i gydymffurfio a chydweithredu ar ffurf cymhelliannau megis mwy o ryddid a llai o brofi am gyffuriau. Roeddent yn ei gwneud hi'n glir hefyd beth oedd canlyniadau cosbol peidio â chydymffurfio neu fethu profion cyffuriau yn ffurf cyfryw, mwy o adrodd, mwy o fonitro gan yr heddlu a cholli llety. **(Leeds)**

- 5.7 O ran achosion anstatudol roedd, yn fras, ddau ddull: naill ai staff gwasanaethau Prawf (fel arfer swyddogion gwasanaethau prawf) yn cyflawni asesiadau a chynllunio, gan amlaf gan ddefnyddio ffurflenni templed a ddyfeisiwyd yn lleol, neu bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan swyddogion heddlu. Yn y naill achos neu'r llall, roedd y cynlluniau hyn yn brin o amcanion clir. Dywedwyd wrthym hefyd fod anawsterau technegol wrth ddefnyddio offer asesu safonol y gwasanaeth prawf. Y farn oedd eu bod yn rhy gymhleth ac anhyblyg, ac na ellid eu rhannu'n hawdd gyda phartneriaid.
- 5.8 Roedd tystiolaeth nad oedd yr heddlu a rheolwyr achos anghymwys y Gwasanaeth Prawf wedi derbyn digon o hyfforddiant i'w galluogi hwy i wneud y gwaith gorau bosibl. Yn gyffredinol, llai na thri chwarter y staff y cyfwelwyd â hwy oedd yn teimlo eu bod wedi derbyn hyfforddiant digonol; fodd bynnag, fe wnaethom asesu mai dim ond 55% o'r staff y cyfwelwyd â hwy oedd wedi cael digon o hyfforddiant a dealltwriaeth o weithio gydag achosion IOM i helpu unigolion i ymatal rhag troseddu a byw bywydau ufudd i'r gyfraith.
- 5.9 Roedd rhai o'r staff heb ddealltwriaeth digon manwl o gymhlethdod y problemau a wynebid gan yr achosion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt ac yn ceisio eu datrys. Cyfyngedig yn aml oedd eu dealltwriaeth o'r anawsterau wrth geisio cyflawni newid parhaol. Er bod hyn yn bwynt cychwyn da, roedd yr hyn yr oedd y troseddwr yn ei weld fel yr ateb i'w problem yn

aml yn cael ei gymryd yn ddi-gwestiwn heb gymryd golwg drylwyr ar ymdrechion blaenorol i newid a strategaethau gwahanol.

- 5.10 Pan ofynasom i reolwyr achos (o ba bynnag gefndir sefydliadol) ynghylch asesu a chynllunio, roeddent yn aml yn dweud geiriau fel 'yr hyn mae angen iddynt ei wneud yw ...' Er bod y diagnosis yn aml yn rhesymol, roedd diffyg dealltwriaeth weithiau o symbyliad y troseddwr ac o'r rhwystrau i gyflawni newid parhaol.
- 5.11 Canfuom nad oedd y mwyafrif o swyddogion heddlu wedi derbyn unrhyw hyfforddiant cyn cael eu haseinio i'r dull IOM. Unwaith yr oeddent yn eu swydd, nid oedd fawr o gydnabyddiaeth o'r sgiliau a'r wybodaeth oedd eu hangen i wneud y gwaith. Roedd un ardal wedi darparu hyfforddiant i swyddogion heddlu mewn rheoli achosion risg uchel o niwed, ac mewn rhai lleoedd roedd swyddogion heddlu'n cael eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r dull adsefydlu gan gydweithwyr profiadol o'r gwasanaeth prawf, trwy fentora anffurfiol. Credwn y dylai'r heddlu gael dealltwriaeth sylfaenol o'r egwyddorion sy'n ymwneud ag adsefydlu, ond prin y dylent, os o gwbl, gymryd y rôl arweiniol ar adsefydlu.

Sylw gan Dditectif Gwnstabl IOM

"Roedd llawer o'm cydweithwyr yn yr heddlu'n synnu o glywed fy mod i wedi ymuno â'r tîm IOM, ac yn dweud wrthyf mai ofer fyddai ceisio newid y bobl yr oeddem wedi bod yn rhedeg ar eu holau ers blynnydoedd a'u caethiwo. Ar ôl ychydig, fe ddechreuais i ofyn iddyn nhw os oedden nhw'n meddwl mai rhedeg ar ôl pobl a'u caethiwo dim ond er mwyn eu cael nhw'n ôl ar y strydoedd o fewn oriau neu hyd yn oed fisoedd oedd y peth ofer."

Sylw gan swyddog prawf sy'n brofiadol mewn IOM

"Mae'r heddlu yma'n awyddus i wneud y peth iawn a helpu'r bobl y maent yn gyfrifol amdanynt i newid eu ffyrdd, ond nid oes ganddynt yr hyfforddiant iawn i wneud hyn mewn gwirionedd. Dw i'n dweud wrthynt, mae gen i syniad go dda am waith yr heddlu, ond fyddech chi ddim yn fy ngadael i allan gyda gefynnau a phastwn. Beth sy'n gwneud ichi feddwl y gallech chi wneud fy swydd i? Mae mwy i'r gwaith prawf yma nag sy'n cael ei sylweddoli'n aml."

Ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu

- 5.12 Mae'r tabl isod yn dangos ein hasesiad o broffil anghenion dynodedig y sampl IOM, o gymharu â data cyfatebol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar anghenion dynodedig yn yr arolygiad, Arolygiad Rheoli Troseddwyr 2 (OMI 2), sy'n edrych ar waith Ymddiriedolaethau Prawf ar draws eu llwyth achosion.

Angen dynodedig sy'n gysylltiedig â throsteddu	Prif dri angen dynodedig y Cohort IOM	Data cyfatebol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar ffactorau a oedd yn peri bod y troseddwr yn fwy tebygol o aildrosteddu
Camddefnyddio cyffuriau	58%	21%
Meddylfryd ac ymddygiad	52%	47%
Ffordd o fyw a chymdeithion	38%	30%
Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth	35%	19%
Llety	33%	16%
Camddefnyddio alcohol	26%	24%

- 5.13 Mae'n amlwg fod y cohort IOM bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod ag angen sylweddol o ran camddefnyddio cyffuriau a thua dwywaith mor debygol o fod ag anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a llety â sampl cyfatebol o achosion a arolygwyd o fewn sampl safonol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Dengys hyn eu bod, yn gyffredinol, yn yr ardaloedd yr ymwelasant â hwy, wedi targedu'n gywir y rheini gyda phroblemau lluosog oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'u throsteddu, ac wedi atgyfnerthu'r angen i sicrhau glynu at yr egwyddor 'Pob partner yn mynd i'r afael â throsteddwr gyda'i gilydd'.
- 5.14 I rai aelodau o dimau IOM, roedd realiti cyfleoedd bywyd eu hachosion yn esbonio llawer ynghylch eu hymddygiad a dwysedd y gwaith y byddai ei angen i oresgyn eu hanfanteision.

Sylw gan swyddog heddlu a gafodd ei secondio i IOM

"Mae'n rhaid ichi ddeall eu cefndir er mwyn deall sut maen nhw wedi cyrraedd lle maen nhw. Mae ei dad yn llofrudd ... ni chafodd y cychwyn gorau."

Casgliad

- 5.15 Yn y carchar fel arfer yr oedd y cyswllt cyntaf yn digwydd ar gyfer asesu achosion IOM a hynny'n aml ar y cyd gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf. Er y gallai hyn ymddangos yn ddefnydd dwys o adnoddau, roedd yn tanlinellu natur ddwys y 'cynnig' oedd yn cael ei wneud i'r troseddwr.
- 5.16 Er bod cynllunio ffurfiol yn aml heb ddatblygu digon, ac nad oedd gan bob achos gynlluniau ysgrifenedig clir, roedd staff yn gyffredinol yn gallu esbonio beth oeddent yn ceisio'i gyflawni o safbwynt mesurau interim, megis lleihau camddefnyddio cyffuriau neu sicrhau cyflogaeth neu lety.
- 5.17 Roedd swyddogion heddlu, yn enwedig, yn aml heb dderbyn digon o hyfforddiant, neu ddim hyfforddiant o gwbl, i weithio mewn rôl adsefydlu gyda throsteddwr. Yn absenoldeb adnoddau'r gwasanaeth prawf neu bartneriaid eraill, roedd swyddogion heddlu weithiau'n cyflawni tasgau y gellid efallai eu cyflawni'n fwy effeithlon gan eraill. Lle'r oedd hyn wedi digwydd, er bod yr heddlu'n gweithredu yn ysbryd partneriaeth, roeddent yn aml yn diwallu angen y dylid bod wedi cael ei ddiwallu gan y Gwasanaeth Prawf, a fyddai fel arall heb gael ei ddiwallu.

5.18 Roedd gan achosion IOM anghenion sylweddol a chymhleth sy'n gysylltiedig â throeddu, er enghraifft camddefnyddio cyffuriau, diffyg llety a diffyg cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd hyn yn dangos bod y bobl iawn wedi cael eu hadnabod ar gyfer IOM. Roedd yn atgyfnerthu'r gofynion i staff gael lefelau uchel o sgiliau yn eu meysydd arbenigol ac i bawb o'r partneriaid weithio gyda'i gilydd i roi sylw i'r anghenion hyn.

6. Ymyriadau IOM

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ffordd o gategoreiddio troseddwy, y mathau o waith adsefydlu a rhwystro/gorfodi a gyflawnir o fewn y dull IOM, cynhyrchu gwybodaeth a defnydd gwirfoddol o ddyfeisiadau tracio y system leoli fyd-eang (GPS).

Ffeithiau allweddol

Roedd gwahanol systemau i ddynodi'r ffordd roedd gwahanol achosion wedi'u blaenoriaethu.

Hyd yn oed pan oedd yn ymddangos fod iaith gyffredin yn cael ei defnyddio i ddisgrifio prosesau o fewn dulliau IOM, mae ymchwiliad manwl yn aml yn dangos gwahaniaethau sylweddol yn yr ystyr.

Mae ymyriadau IOM yn rhannu'n fras yn ddau gategori, rhai â gogwydd adsefydlu a rhai â gogwydd rhwystro/gorfodi.

Mae IOM yn rhoi cyfle i greu gwybodaeth o ansawdd uchel i reoli troseddu yn gyflym yn dilyn unrhyw ddychwelyd i droseddu.

Roedd lefelau cyswllt rhwng y rhai hynny a gafodd eu nodi fel rhai sy'n destun IOM a'r rhai oedd yn eu rheoli yn gymharol uchel yn y rhan fwyaf o achosion.

Yn y rhan fwyaf o achosion roedd arweinwyr IOM wedi creu perthynas dda gyda darparwyr gwasanaethau eraill i gwrdd ag anghenion cysylltiedig â throseddau unigolion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd y defnydd gwirfoddol o gyrffiw gyda system tracio GPS yn cael ei ddatblygu mewn dwy ardal yn y sampl.

Blaenoriaethu troseddwy

- 6.1 Roedd peth cymhlethdod ynglŷn â rhyngweithio a gorgyffwrdd y dull IOM a'r cynllun PPO ym mhob ardal. Mewn nifer o achosion y PPOs oedd troseddwy uchaf eu blaenoriaeth gydag achosion IOM yn ffurfio'r ail haen. Arweiniodd hyn at drafferthion, oherwydd gallasai'r rhai a nodir fel PPOs fod wedi rhoi'r gorau i droseddu, tra bod troseddwr a reolir fel achos IOM yn dal i droseddu. Ceisiodd rhai ardaloedd fynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddefnyddio system cod lliw ychwanegol. Roedd troseddwy yn cael eu dosbarthu'n aml (gyda gwahanol ystyron) yn Goch, Ambr neu Wyrdd, a oedd yn nodi'n gyffredinol eu lefel o gydymffurfio gyda'r rhaglen. Defnyddiwyd lliw arall yn aml ar gyfer y rhai yn y ddalfa.
- 6.2 Canfuom fod ceisio deall yn union beth oedd ardal benodol yn ceisio ei gyflawni, gyda'r rhai a nodwyd i'w rheoli gan IOM, wedi ei cymhlethu gan y ffaith fod rhai geiriau disgrifiadol am arferion yn aml ag ystyron lleol.
- 6.3 Er na chawsom hyd i gytundeb cyffredin am derminoleg, credem y byddai defnyddio cod lliw syml i'w ddeall, er mwyn dynodi blaenoriaeth a ffocws yr ymyriad, yn effeithiol. Er enghraifft defnyddiwyd y dull canlynol mewn un ardal:

Coch:	Yn rhydd yn anghyfreithlon neu ddim yn ymgysylltu ag ymyriadau adferol gyda gwybodaeth i awgrymu troseddu gweithredol.
Ambr:	Peth cysylltiad ag ymyriadau adferol ond dim gwybodaeth i awgrymu troseddu gweithredol.

Gwyrdd: Cydweithrediad gweithredol ag ymyriadau adferol a dim tystiolaeth i awgrymu troseddu pellach.

Glas: Yn y carchar ac yn cynllunio ar gyfer cael ei ryddhau.

- 6.4 Ble y cawsant eu defnyddio roedd y dynodiadau yn ei gwneud yn glir, yn lleol, pa weithgaredd ddylai fod yn cael ei gyflawni gyda pha ddeiliaid. Mewn sefyllfa o ddydd i ddydd roedd hyn yn fwy defnyddiol na dim ond cofnodi'r statws IOM neu PPO. Roedd hefyd yn galluogi'r heddlu lleol i deilwra eu hadwaith at y rhai oedd yn cael eu hadnabod fel rhai sy'n destun IOM yn ôl eu hymddygiad cyfredol.

Beth yn union mae IOM yn ei gyflwyno?

- 6.5 Wedi adnabod cohort o droseddwr ac ennill dealltwriaeth o'u hanghenion a'r tebygolrwydd iddynt aildroseddu, mae'n rhaid i'r dull IOM gydbwysu'r ddau amcan o adfer a gorfodi/rhwystro, neu fel roedd y fenter PPO yn labelu'r dulliau hyn 'adfer ac adsefydlu' neu 'dal ac euogfarnu'.
- 6.6 Roedd gan bob un o'r ardaloedd yr ymwelwyd a hwy eu ffordd unigryw o drin troseddwr oedd wedi eu dethol ar gyfer y dull IOM. Roedd gwahanol fathau a chymarebau o staff wedi eu dewis ar gyfer y dull IOM gan geisio cyflwyno gwahanol fathau o wasanaeth.
- 6.7 Roedd ymyriadau'n syrthio'n fras oddi fewn i fframwaith adsefydlu neu rwystro/gorfodi, er, yn ymarferol gall yr un gweithredoedd yn aml gael eu dehongli fel cyflawni'r ddau amcan. Er enghraifft, gall cynnydd yn nifer yr ymweliadau cartref gael ei weld fel bod yn gefnogol i adsefydlu, tra'n sicrhau y gall gwybodaeth gael ei gasglu ac arwyddion aildroseddu eu monitro. Ym mron i bob un o'r achosion, ystyriwyd dull adferol yn fan cychwyn rhesymol gan staff yr IOM.
- 6.8 Nid oedd sail rhesymegol cyson i statws y rheolwr achos, er fod bron i hanner yr achosion yn cael eu rheoli gan swyddog prawf cymwys.
- 6.9 Roedd hanner yr achosion anstatudol yn cael eu rheoli gan swyddogion heddlu. Mewn rhai, ond nid ymhob enghraifft, roedd hyn oherwydd bod y gwaith oedd yn cael ei wneud ganddynt yn gogwyddo tuag at orfodaeth.
- 6.10 Ble y darganfuom bod swyddogion yr heddlu yn arwain wrth gyflwyno ymyriadau adferol, roedd hyn gan amlaf o ganlyniad i barodrwydd y gwasanaeth prawf i flaenoriaethu'r gwaith hwn gyda throseddwr anstatudol. Er bod parodrwydd yr heddlu i wneud y gwaith hwn yn ddealladwy ac yn ganmoladwy, nid oedd yn ymddangos fel y defnydd mwyaf addas o'u sgiliau. Rydym yn cydnabod bod angen i'r heddlu gael gwybodaeth ymarferol o dechnegau adsefydlu a pharodrwydd i gyd-drafod yn gadarnhaol â rhai sy'n destun IOM, ond eu rôl allweddol mewn IOM yw casglu gwybodaeth a chyd-drefnu gweithgaredd rhwystro/gorfodi.
- 6.11 Canfuom fod y cysyniad o reoli achosion ar y cyd yn effeithiol, yn arbennig pan oedd yn cael ei weithredu'n hyblyg ac yn seiliedig ar asesiad cywir o agwedd troseddwr mewn perthynas â'i ymatal. Er y gallai gweithiwr prawf fod yn gyfrifol am achos statudol, os oedd lefelau cydweithredu'n wael neu os oedd troseddu'n cael ei amau byddai'n gwbl addas i swyddog o'r heddlu arwain yn y cyswllt o ddydd i ddydd ac i sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei gynhyrchu a'i rannu i greu cyfleoedd rhwystro/gorfodi. Yn yr un ffordd, os oedd achos anstatudol yn dymuno manteisio ar wasanaethau adsefydlu, mae'r un mor addas iddo gael ei reoli gan weithiwr prawf.

Ymyriadau adsefydlu

- 6.12 Roedd cred gyffredinol, ymhlith y rhai a holwyd, ymysg llawer o ail droseddwyd fod y disgwyliad o fyw bywyd yn rhydd o droseddu heb gymorth teulu, help gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, tŷ rhesymol, ac incwm cyfreithlon neu fudd-daliadau yn gwbl afrealistig. Roedd hyn yn arbennig o wir am y rhai oedd yn cael eu rhyddhau o garchar, lle'r oedd unrhyw sefydlogrwydd cyfyngedig roedd ganddynt efallai wedi ei chwalu gan y ddedfryd o garchar. Gwelwyd rôl yr IOM fel ffordd o sicrhau bod y gefnogaeth angenrheidiol yn ei lle i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad cadarnhaol.
- 6.13 Roedd bron bob un o'r staff a holwyd yn gwbl ymroddedig i'r syniad y byddai'r rhai sy'n destun dull IOM, gyda'r cymorth iawn ar yr amser iawn, yn gallu cael eu helpu i ymatal rhag troseddu, hyd yn oed pe bai'r ymatal hwnnw'n cymryd sawl ymgais. Dywedodd llawer o swyddogion heddlu, o bob lefel o'r sefydliad, fod IOM wedi newid eu meddwl am bosibiliadau adsefydlu i newid ymddygiad troseddwyd yn gadarnhaol a lleihau troseddu.
- 6.14 Yn gyffredinol, roedd 71% o achosion perthnasol yn cael eu gweld o leiaf ddwywaith yr wythnos gan staff IOM, neu'r rhai oedd yn gweithredu ar eu rhan. Mewn rhai achosion roedd y cyswllt yn ddyddiol. Ble roedd IOM yn gweithio'n dda, ymwelwyd ag achosion cartref yn rheolaidd fel rhan o'r oruchwyliaeth. Gellid disgrifio dros hanner yr achosion a oruchwylwyd fel rhai a oedd yn cydweithredu'n adeiladol.

Sylw gan swyddog prawf IOM

"Rhan o'r hyn rydym yn ceisio ei wneud yma yw cael pobl rydym ni'n gweithio gyda nhw i ddatblygu hunaniaeth sydd ddim yn troseddu. Dydw i ddim yn siŵr os yw'n helpu i'w galw nhw'n 'droseddwyd' pan feddylw'n eu bod yn cydweithredu'n gadarnhaol â ni ac nad oes gennym ni ddim gwybodaeth eu bod mewn gwirionedd yn troseddu."

- 6.15 Roedd sawl ardal wedi adeiladu perthynas dda â charchardai ac yn aml yn llwyddo i symud troseddwyd i garchardai lleol cyn eu rhyddhau. Roedd hyn yn galluogi gwaith paratoi da i gael ei wneud, oedd yn lleihau i'r eithaf y tebygolrwydd o ryddhau, heb gynllun hyfyw i gefnogi eu hymatal wedi eu rhyddhau.
- 6.16 Yn Leeds, roedd ymroddiad i weithio'n ddyfal gyda throseddwyd a gafodd eu hadnabod fel troseddwyd IOM cyn cael eu rhyddhau, gyda'r heddlu'n defnyddio ditectif gwnstabl ar gyfer bob un o'r ddau garchar lleol a staff prawf yn ymweld er mwyn cyflwyno rhaglen o ymyriadau. Roedd y rhaglen strwythuredig yn parhau ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau, gyda'r sesiwn olaf yn cael ei chyflwyno yn y gymuned.

Sylw gan grŵp ffocws swyddogion heddlu IOM

"Rydym yn cynnig cymorth ychwanegol i'r PPOs cyn cael eu rhyddhau. Gellir ymdrin â thai, DIP^v, budd-daliadau, hyfforddiant a chynghor ar gyflogaeth cyn dod allan. Y flaenoriaeth yw sicrhau nad oes neb o'r rhai sy'n dod allan yn ddiartref."

- 6.17 Yn aml byddai staff o rai dimau IOM yn trefnu i gyfarfod â throseddwyd wrth giât y carchar i atgyfnerthu'r ffaith fod cymorth ar gael ar eu cyfer a'u bod yn dal i fod o bryder i'r heddlu. Roedd staff yn teimlo fod y broses hon yn angenrheidiol ble roedd y troseddwr yn ceisio ail-leoli er mwyn torri cylch troseddu mewn ardal benodol neu gyda chymdeithion penodol.
- 6.18 Gwelsom lawer o enghreifftiau o arferion da wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau ble y trefnwyd hostel neu lety arall dros dro. Gan amlaf byddai'r gwaith cychwynnol hwn yn cael ei ddilyn wedi i'r unigolyn gael ei ryddhau, ac yn aml roedd angen sawl cynnig i ganfod datrysiad mwy parhaol. Yn aml roedd llawer o ymweliadau gan y rheolwr achos i gynnig

^{iv} Rhaglen ymyriadau cyffuriau

cymhelliant, cyngor ymarferol a chefnogaeth, tra'n monitro unrhyw ddychweliad posibl at aildroseddu.

- 6.19 Cynigiodd sawl ardal docynnau campfa i'r rhai oedd yn destun IOM (yn amodol ar fynd ati'n gadarnhaol i gymryd rhan) i wella eu defnydd adeiladol o amser hamdden ac iechyd, yn aml yn cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr neu fentor gymheiriaid. Roedd gweithgareddau chwaraeon eraill, fel pêl-droed yn y gymuned, hefyd yn cael eu hyrwyddo. Roedd rhai hefyd wedi trefnu mathau o weithgareddau gwirfoddol awyr agored, mewn ymdrech i ddatblygu diddordebau adeiladol.
- 6.20 Defnyddiwyd mentoriaid hefyd mewn rhai lleoedd i fynd gyda throseddwy'r brosiectau gwirfoddol i wella eu sgiliau ac integreiddio cymunedol. Ble roedd troseddwy'r heb hyder i fynychu'r fath brosiectau ar eu pen eu hunain, roedd hyn yn ffordd effeithiol o annog cymryd rhan.

Enghraifft o arfer dda

Roedd Mark yn ddefnyddiwr sylweddau hirdymor gyda hanes hir iawn o droseddu. Tra roedd yn y carchar datblygwyd cynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â'i anghenion troseddu. Cafodd ei gyfarfod yn y carchar ar ddyddiad ei ryddhau gan weithiwr prosiect tai ac aeth ar ei union i lety adsefydlu preswyl ar gyfer ei broblem dibyniaeth ar gyffuriau. Wedi cwblhau'r rhan hon o'i adsefydlu cafodd ei symud i lety gyda chymorth ac roedd yn dechrau archwilio problemau eraill oedd yn gysylltiedig â'i droseddu, er enghraifft diffyg addysg a hyfforddiant. Adeg yr adolygiad roedd wedi cynnal ei ymatal rhag troseddu. **(Tameside)**

- 6.21 I rai troseddwy'r dan anfantais neilltuol, mae'n ymddangos fod ychydig bach o gymorth ymarferol a phryder diffuant ar ran staff IOM yn ddigon i wneud gwahaniaeth.

Enghraifft o arfer dda

Roedd Jonathon yn ddyn ag anableddau dysgu a record droseddol yn ymestyn at 83 o gollfarnau am 173 o droseddau. Enillodd staff yr IOM gyllid i dalu £300 o ddyledion rhent, gan eu galluogi i sicrhau llety yn yr YMCA i baratoi ar gyfer ei ryddhau. Cafodd ei godi o'r carchar a'i gymryd i wahanol apwyntiadau i sicrhau bod cais wedi ei wneud am ei fudd-daliadau a bod ganddo gymorth ar gyfer ei anableddau dysgu a'i gamddefnydd o alcohol. Cafodd ei weld yn rheolaidd gan weithiwr tai IOM ac aelodau eraill o'r staff a gynigiodd gymorth ymarferol iddo, gan gynnwys sicrhau fod ganddo ddillad ac esgidiau addas. Adeg yr archwiliad nid oedd Jonathon wedi ei ail gollfarnu ers amser sylweddol ac roedd yn cynnal y cyswllt ar sail anstatudol. **(Norwich)**

- 6.22 Ble roedd troseddwy'r a oedd ynghynt wedi cydweithredu'n gadarnhaol gyda'r IOM yn dechrau ymddieithrio, roedd nifer o ymatebion. Mewn un ardal, nid oedd canlyniad penodol, yn arbennig mewn achosion anstatudol a gafodd eu symud o'r cohort. Sail rhesymegol hyn oedd y byddai'n well treulio'r amser cyfyngedig oedd ar gael ar gyfer gweithgarwch adsefydlu gyda throseddwr oedd yn barod i dderbyn cymorth. Nid ydym yn credu fod y math hwn o ddull yn addas. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai troseddwy'r, o leiaf gael eu targedu gan yr heddlu lleol i gadarnhau eu bod wedi gwneud newidiadau i'w dull o fyw heb gymorth yr IOM.
- 6.23 Yr ymateb mwyaf cyffredin i ymddieithrio o'r dull IOM oedd cyflwyno gwybodaeth i'r heddlu lleol i gynyddu gwylidwriaeth, gyda'r bwriad o'u arestio'n gyflym os oedd aildroseddu yn digwydd.
- 6.24 Roedd gan un ardal bolisi clir iawn o dynnu pob cymorth yn ôl o achos os oedd yr unigolyn yn methu cydweithredu'n gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau partneriaeth.

Er y byddent yn parhau i gael mynediad arferol fel dinasyddion, byddai unrhyw ymdrechion ychwanegol yn cael eu hatal. Roedd gan y polisi hwn y fantais o eglurder ac roedd yn dangos i'r troseddwr na allai ddewis cael budd o help y dull IOM heb gymryd rhan yn llawn ynddo. Roedd peth tystiolaeth fod y dull hwn yn ymddangos fel pe bai'n llwyddiannus dan amgylchiadau arbennig.

Dull rhwystro/gorfodi

- 6.25 Yn gyson â'r egwyddor o droseddwr yn wynebu eu cyfrifoldeb, neu'n wynebu'r canlyniadau ble mae hynny'n angenrheidiol, roedd timau IOM yn gallu cyflawni mwy o weithgarwch rhwystro/gorfodi a oedd yn gymesur â lefel cydweithrediad y rhai sy'n destun IOM.
- 6.26 Wedi adnabod cohort o'r rhai fyddai fwyaf tebygol o aildroseddu ac wedyn canolbwyntio ar orfodi eu cydymffurfiad, nid yw'n syndod fod y rhai sy'n ddarostyngedig i ddull IOM yn aml gerbron y llysoedd. Cymharol ychydig o orchmynion cymunedol welsom ni a, ble roedd troseddwr yn ddarostyngedig i'r rhain, roeddent yn aml wedi derbyn gwarediadau eraill ers i'r gorchymyn gael ei roi. Canfuom fod penderfyniadau ynglŷn â gorfodi cosbau cymunedol neu drwyddedau yn addas ac amserol mewn 92% o achosion.
- 6.27 Mewn un ardal gwelsom sawl esiampl o arferion gwael, o safbwynt y defnydd o fechniaeth yr heddlu, ble roedd penderfyniadau wedi eu gwneud heb fantais gwybodaeth lawn gan y tîm IOM am amgylchiadau'r troseddwr ar y pryd.
- 6.28 Ble roedd troseddwr ar drwydded a bod trosedd newydd, tasg y Dirprwy Brif Swyddog prawf oedd cymeradwyo a ddylid galw'r troseddwr yn ôl i'r carchar. Ble roedd y drosedd yn un fach a'r asesiad oedd fod yr achos wedi atgwympo (yn groes i roi'r gorau iddo), roedd peth tystiolaeth nad oedd cael ei alw'n ôl yn cael ei gymeradwyo, ond bod amodau ychwanegol yn cael eu gorfodi i ddod â'r troseddwr yn ôl i gydymffurfio. O ystyried y gallai gael ei alw'n ôl i'r carchar beryglu gwaith sylweddol a oedd wedi'i wneud, roedd hyn yn ymddangos yn ffordd resymol o weithredu.
- 6.29 Mewn achosion eraill, ble roedd yn ymddangos fod y troseddwr wedi ymddieithrio oddi wrth gymorth adsefydlu, roedd yn ymddangos yn rhesymol i ni fod galw'n ôl yn cael ei argymhell, hyd yn oed ble roedd y trosedd yn gymharol ddinod, er mwyn atal ail droseddu posibl yn y dyfodol. Ble digwyddodd hyn, roedd yn rhaid i reolwr yr achos a'r Dirprwy Brif Swyddog ystyried naill ai i ofyn am alw'n ôl 28 diwrnod neu alw'n ôl safonol. Yn yr achosion hyn gwnaed y penderfyniad gan adran achosion gwarchod y cyhoedd NOMS. Roedd gwaith papur perthnasol NOMS yn gofyn am wybodaeth am PPO ond nid am statws IOM.
- 6.30 Roedd troseddwr IOM a rhyddhawyd ar drwydded ag amodau ychwanegol i gydymffurfio â hwy mewn 62% o achosion. Yn fwyaf cyffredin roedd hyn i gydymffurfio â gofynion dull IOM. Dan orchmynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder cyfyngir prawf cyffuriau ar drwydded i PPOs oedd wedi'u hadnabod fel rhai gyda phroblem cyffuriau a throsedd perthnasol oedd yn peri hynny. Canfuom dystiolaeth o ymarferwyr yn cymhwyso statws PPO i achosion oedd wedi eu rheoli fel arall dan ddull yr IOM, er mwyn rhoi cosb prawf cyffuriau ar drwydded. Gan nad oes diffiniad pendant o un grŵp na'r llall, canfuom fod yr ymarfer yn rhesymol dan yr amgylchiadau, er braidd yn feichus i'w weithredu.
- 6.31 Ble nad oedd cydweithredu cadarnhaol ar ddigwydd, roedd staff IOM gan amlaf yn trefnu i droseddwr gael eu targedu i ddull rhwystro/gorfodi. Yn yr ardaloedd â'r trefniadau mwyaf cynhwysfawr, byddai hyn yn golygu cyswllt gydag unedau plismona lleol neu arbenigol a fyddai'n targedu'r troseddwr yn benodol i gael rhagor o sylw gan yr heddlu. Os oedd gan reolwr yr IOM gysylltiadau agos ag adran berthnasol yr heddlu, roedd y math hwn o weithredu'n fwy tebygol.

Enghraifft o arfer dda:

Roedd Tameside wedi dechrau arfer o 'ymweliadau gwyliadwriaeth' oedd wedi eu cefnogi'n rhannol gan gyllid o'r awdurdod lleol. Dan y fenter hon, roedd troseddwr dethol yn cael ymweliadau yn eu cartrefi gyda'r nos neu dros y Sul gan aelod o'r staff prawf oedd yn gweithio ochr yn ochr gyda swyddogion nad oeddynt yn arbenigwyr o dîm plismona cymdogol. Roedd llawer o amcanion i'r ymweliadau hyn, gan gynnwys prawf cyffuriau ble roedd hynny'n angenrheidiol, cynnig cymorth ar adegau pan nad oedd gwasanaethau eraill ar gael, cael mynediad i'r cartrefi at ddibenion casglu gwybodaeth ac atgoffa'r troseddwr eu bod yn cael eu gwyllo'n ofalus. Efallai, yn bwysicach na dim, roedd yr ymweliadau hyn yn galluogi swyddogion yr heddlu cymdogol lleol i adeiladu perthynas â'r troseddwr a deall dull yr IOM.

Rhannu gwybodaeth

- 6.32 O adeiladu ar brofiad y fenter PPO, un o'r cyfleoedd arwyddocaol a gaed gan y berthynas weithio agos rhwng y rhai oedd yn ceisio adsefydlu troseddwr a phlismona prif ffrwd oedd rhannu gwybodaeth.

Enghraifft o arfer dda:

Mewn un ardal, dechreuodd un swyddog prawf amau fod troseddwr wedi dechrau delio â chyffuriau eto, er nad oedd ganddi ddigon o dystiolaeth i weithredu ar hynny. Drwy ddull yr IOM trosglwyddodd rhif cofrestredig car y troseddwr a chafodd ei wirio gan System Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig. Dangosodd hyn fod y troseddwr yn teithio rhwng dinasoedd ar gyfer cyfarfodydd byr yn yr oriau mân. Y tro nesaf y gwelwyd y car yn gadael yr ardal, gosodwyd cynlluniau i'w atal wrth iddo ddychwelyd. Canfuwyd heroin yn y car a'i werth ar y stryd yn £1,800.

- 6.33 Gwelsom yr ystod lawn o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Mewn rhai lleoedd roedd cyfnewid gwybodaeth yn arfer gyson; mewn mannau eraill prin fod unrhyw gyfathrebu. Yn yr ardaloedd mwyaf effeithiol roedd tystiolaeth fod y dull IOM wedi arwain at ddiwylliant mwy integredig rhwng y gwahanol bartïon, gyda pharch a dealltwriaeth tuag at ofynion hanfodol awdurdodau oedd yn cystadlu â'i gilydd. Dengys yr esiamplau o arferion da isod sut y gall hyn wella'r gwaith adsefydlu a'r gwaith rhwystro/gorfodi.

Enghraifft o arfer dda:

Yn Tameside, darparodd gwasanaeth cudd-wybodaeth yr heddlu yr hyn oedd yn cael ei alw'n 'Cynlluniau Sbardun' yn ôl y gofyn, i achosion IOM oedd yn cael eu rhyddhau o'r carchar. Roedd y cynlluniau hyn yn nodi'r dulliau tebyg a'r lleoliadau ble y byddai'r troseddwr hyn yn debyg o droseddu. Pe bai trosedd yn cydweddu â'r proffil hwn yn digwydd, roedd yn gallu cael ei chysylltu'n gyflym â'r sawl a allai o bosibl fod wedi cyflawni'r drosedd ac roedd hyn yn caniatáu arestio cyflym neu ddileu'r person posibl a ddrwgdybir o'r rhestr.

- 6.34 Mewn rhai ardaloedd, roedd staff IOM yn mynychu briffio dyddiol gwasanaeth cudd-wybodaeth yr heddlu a briffiau Tasgio a Chydgysylltu mwy strategol. Roedd y briffiau hyn yn galluogi cyfnewid gwybodaeth ddwy ffordd rhwng yr IOM a phlismona prif ffrwd. Mewn rhai achosion roedd yn bosibl defnyddio timau gwyliadwriaeth lleol i ymateb i achosion blaenoriaeth uchaf yr IOM oedd naill ai ddim yn cysylltu, neu oedd yn cysylltu ond yn dal i gael eu hystyried fel rhai oedd yn parhau i droseddu. Yn yr ardaloedd gyda'r dull IOM mwyaf datblygedig, roedd troseddwr oedd â'u henwau wedi eu hadnabod yn y briffiau fel rhai gweithredol gan yr heddlu lleol yn cael eu cyfeirio am gynhwysiad posibl.

Enghraifft o arfer dda:

Roedd gan Jim hanes o drais yn y cartref ac roedd rheolwr yr achos yn teimlo fod perygl uwch o droseddu yn ystod penwythnos gŵyl y banc. Cynhyrchwyd bwletin gwybodaeth a mynychodd y rheolwr achos y cyfarfod tasgio i drafod yr achos a chynghori ar fesurau posibl i ostwng y tebygolrwydd o aildroseddu. **(Conwy)**

- 6.35 Yn ogystal ag adnabod pa aelodau o gohort yr IOM oedd angen sylw penodol rhagweithiol yr heddlu, roedd y briffiau hefyd yn galluogi staff yr IOM i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad yr achosion. Mewn rhai ardaloedd anogwyd swyddogion heddlu ar eu rhawd (a staff/ swyddogion heddlu cynorthwyol cymunedol) i wneud ymatebion cadarnhaol ac atgyfnerthol i rai sy'n destun IOM oedd yn cynyddu'n dda.
- 6.36 Fe wnaethom ddod o hyd i dystiolaeth y gallai fod effaith negyddol os oedd staff yr IOM yn methu dylanwadu ar ddull plismona cyffredinol o ddydd i ddydd. Mewn un enghraifft roedd un troseddwr oedd yn ymatal rhag troseddu wedi perswadio rhieni ei gariad i gynnig llety iddo. Er nad oedd gan staff yr IOM ddim ond gwybodaeth gadarnhaol am y symudiad hwn, nid oeddynt yn gallu argyhoeddi'r heddlu lleol i gyfyngu ar eu hymweliadau i wirio'r troseddwr. Wedi sawl wythnos tynnwyd yn ôl y cynnig o lety am fod y perchnogion wedi canfod lefel sylw'r heddlu yn annerbyniol. Dychwelodd y troseddwr yn ôl at ei gymdeithion blaenorol a dechrau troseddu.

Enghraifft o arfer dda:

Yng Nghonwy, galwodd troseddwr oedd â gwarant heb ei chyflawni ei reolwr gwasanaeth prawf o ffôn o gyfeiriad nad oedd yn gysylltiedig â'i gyfeiriad ei hun. Drwy wirio'r rhif o ble daeth yr alwad gyda chronfa ddata IOM, roedd modd olrhain ffynhonnell yr alwad i gyfeiriad troseddwr arall. Roedd cydlynnydd yr IOM yn gallu trefnu i gwnstabl gyda'r heddlu lleol ymweld â'r cyfeiriad yn ddiymdroi a gwneud arestiad cyflym.

- 6.37 Er na fu i ni ganfod unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o ddull cyfiawnder adferol yn cael ei ddefnyddio yn y sampl o achosion a arolygwyd, mae rhai swyddogion yr heddlu wedi eu hyfforddi i gyflwyno cynadleddau adferol ac wedi ymgymryd â hwy fel rhan o ddull yr IOM.

Cyrrffw a thracio drwy System Leoli Fyd-eang (GPS)

- 6.38 Mae cyfarwyddiadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd yn cyfyngu'r defnydd rheolaidd o gyrffw wedi eu monitro yn electronig gan ddefnyddio amledd radio i droseddwr ar fechniaeth, gorchmynion cymunedol neu gyrffw cyfyngu i'r cartref. Canran fach iawn o gohort cenedlaethol IOM yw'r troseddwr yn yr amgylchiadau hyn, ac ni welsom neb yn yr archwiliad.
- 6.39 Roedd dwy o'r ardaloedd y gwnaethom ymweld â hwy wedi buddsoddi mewn systemau tracio gwirfoddol GPS. Er nad yw'r Swyddfa Gartref eto wedi cymeradwyo'r dechnoleg hon ac ni ellir ei gorfodi dan y gyfraith, roedd, fodd bynnag yn cael ei ystyried yn ategiad defnyddiol i ddull yr IOM.
- 6.40 Ble roedd staff yr IOM yn credu fod cyfleoedd i leihau troseddu yn sylweddol drwy ddefnyddio monitro GPS, roeddent yn nodweddiadol yn mynd at y rhai'r oeddent yn credu y dylent fod yn destun i'r rhaglen ac yn egluro'r manteision.
- 6.41 Dywedwyd wrthym fod deiliaid posibl gyda dymuniad didwyll i roi'r gorau i droseddu yn gallu deall y byddai'r tag yn gweithredu fel dull o atgoffa parhaus o'u hymroddiad ac (gan fod y tebygolrwydd o arestiad gryn dipyn yn uwch) yn ataliad effeithiol. Roedd hefyd dystiolaeth anecdotaidd y galliai'r tag gael ei ddefnyddio fel 'esgus' i adael i'r un oedd yn ei

wisgo i wrthod cyfleoedd troseddol oedd yn codi gan gymdeithion blaenorol heb golli wyneb.

- 6.42 Yn ychwanegol at y rhesymau eang cadarnhaol yma pam y gallai unigolyn efallai ddymuno ystyried y tag GPS, roedd y cymhelliad pellach y byddai tîm yr IOM yn gwybod ble roeddent, a'u bod yn gallu 'perswadio' yr heddlu lleol i beidio â gwneud gwiriadau ar riniog y drws neu wneud gwiriadau atal aml i rwystro unrhyw fygythiad canfyddiedig o droseddu pellach.
- 6.43 O safbwynt plismona, dywedwyd mai un o brif fanteision GPS oedd ei fod yn galluogi deiliad y tag i gael ei ddileu o'u ymholiadau'n gyflym. Roedd hyn yn rhyddhau adnoddau, gan ganiatáu llinellau ffrwythlon eraill o ymholiad i gael eu dilyn.
- 6.44 Ble defnyddiwyd tracio GPS, roedd tystiolaeth fod rhai swyddogion heddlu o'r rheng flaen nad oeddent wedi adnabod ei botensial hyd yma i ostwng yr angen i wneud gwiriadau corfforol.

Sylw gan dditectif gwnstabl IOM

"Roedd o ar dag gwirfoddol (GPS) gennym ni; roeddem yn gwybod ble'r oedd a'i fod yn gwneud yn iawn. Ond allem ni ddim cael y Tîm Plismona Cymunedol i adael llonydd iddo, roedden nhw yno yn curo'r drws yn y nos i wneud yn siŵr ei fod adref, er y gallem ni ddangos ei fod yno. Roedd yn ddianghenraid ac yn wrthgynhyrchiol."

Enghraifft o arfer dda:

Roedd Tim yn defnyddio cyffuriau gyda hanes o analluogi ei dag GPS cyn troseddu a dwyn o geir. Pan ddywedwyd wrth reolwr ei achos ei fod wedi analluogi'r tag, roedd hyn yn arwydd da ei fod allan yn troseddu. Roedd tîm IOM yn gwybod am batrwm ei ymddygiad ac roedd ganddynt syniad go dda ble y byddai; dyma rybuddio swyddogion yr heddlu lleol ble fyddent yn gallu dod o hyd iddo. Cafwyd hyd iddo â nwyddau wedi'u dwyn yn ei feddiant o nifer o geir a cafodd ei arestio. **(Norwich)**

Casgliad

- 6.45 Roedd y defnydd o system ddsbarthu syml yn rhoi amcan clir o'r flaenoriaeth y dylid ei rhoi, a natur y gwaith i'w wneud. Roedd y dull hwn hefyd yn caniatáu i gynnydd unigolion, neu'r gwrthwyneb, gael ei dracio'n rheolaidd drwy briffiau gosod tasgau dyddiol neu wythnosol i dimau plismona cymdogol, gan sicrhau y gallai pob partner deilwra eu hymyriadau i amgylchiadau'r rhai oedd yn destun IOM.
- 6.46 Canfuom lawer o esiamplau o arferion da o safbwynt cefnogaeth adferol, rhannu gwybodaeth a gweithgaredd cyfyngol/gorfodaeth, sydd â'r posibilrwydd o gynorthwyo'n sylweddol i gwrdd ag amcanion y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o leihau troseddu ac aildroseddu, yn arbennig amllder aildroseddu.
- 6.47 Roedd lefelau cyswllt y rhai sy'n ddarostyngedig i wyliadwriaeth statudol yn llawer uwch na lleiafswm y gofyn. Roedd gweithredu i sicrhau fod troseddwy'r yn cael eu dal yn gyfrifol a'u dychwelyd i'r llys neu i'r carchar yn ddiymdroi, os digwydd iddynt aildroseddu neu beidio â chydymffurfio, yn gyflym ac yn deg. Mae hyn yn gyson ag egwyddorion IOM.
- 6.48 Roedd dulliau mwyaf datblygedig yr IOM wedi llunio partneriaethau gydag amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaeth a gwirfoddolwyr, i gynnig i droseddwy'r bob cyfle rhesymol i roi sylw i'w hanghenion ac i gael eu cefnogi drwy broses o newid fyddai'n arwain at fywyd yn rhydd o drosedd.

- 6.49 Darganfuom fod y gallu i newid cyfeiriad rhwng dull adsefydlu a dull rhwystro/gorfodi yn angenrheidiol i lwyddiant yr ymyriad; roedd y gallu hwn yn cael ei wella ble roedd ardaloedd yn defnyddio system glir i ddangos pa gyfnod roedd y troseddwr ynddo ac felly, beth oedd yr ymateb mwyaf addas ar unrhyw amser penodol.
- 6.50 Nid oedd y defnydd o rai gofynion cyfyngu, er enghraifft cyrffiw a phrofi am gyffuriau ar drwydded, wedi eu hadolygu gan NOMS yn dilyn cyflwyno IOM. Dim ond i rai oedd wedi eu dynodi fel achosion PPO roedd y rhain ar gael. Yn yr un ffordd, mae peth dogfennaeth, er enghraifft yr hyn sy'n cael ei ddarparu i warchod y cyhoedd ac adran gwaith achos, yn gofyn am wybodaeth ar statws PPO yn unig.
- 6.51 Mae'r defnydd o GPS yn ddatblygiad diddorol a fydd heb amheuaeth yn chwarae rhan bwysig mewn atal a datrys troseddau yn y dyfodol cymharol agos. Ni ddylai fodd bynnag gael ei weld fel moddion at bob clwyf. Mae rheoli achos gan ddefnyddio technoleg GPS yn gofyn am gryn fuddsoddiad mewn amser staff, yn ogystal â thechnoleg. Roedd y staff mewn dwy ardal y bu i ni ymweld â nhw oedd yn defnyddio technoleg GPS o'r farn fod unrhyw dwf yn ei ddefnydd yn lleol angen cael ei weithredu gam wrth gam yn ofalus, ac na ellid ei gyfiawnhau ond mewn achosion â thebygolrwydd uchel o aildroseddu. Wrth iddo ddod ar gael fel rhan o warediad ffurfiol y llys neu fel amod o fechnïaeth neu drwydded, bydd ystod ychwanegol o broblemau i'w ystyried o gwmpas torcyfraith a fydd hefyd mewn perygl o fod angen llawer o adnoddau.

7. Barn y rheini sy'n destun Rheoli Troseddwy'r Integredig

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn amlinellu barn 16 o droseddwy'r a holwyd gan arolygwyr gan ddefnyddio dull cyfweld lled-strwythuredig.

Ffeithiau allweddol

Roedd mwyafrif y rhai a holwyd yn deall yn iawn pam eu bod wedi'u dewis ar gyfer dull IOM.

Roedd profiad y rhai oedd yn cael eu rheoli gyda'r dull IOM yn gadarnhaol ar y cyfan.

Barn rhai sy'n destun IOM

- 7.1 Gofynasom i gydlynwyr IOM adnabod grŵp bach o droseddwy'r oedd yn gysylltiedig ag IOM, a fyddai'n barod i siarad â ni'n wirfoddol. Fe wnaethom gynnal 16 o gyfweiliadau i gyd, gyda rhwng dau a phump o rai sy'n destun IOM o bob ardal. Efallai nad oedd pob un oedd yn fodlon siarad â ni yn gynrychioladol o'r rhai oedd yn ddarostyngedig i'r dull hwn, ond mae eu safbwynt yn bwysig er hynny.
- 7.2 Roedd pob un a holwyd yn deall pam eu bod wedi eu nodi am reolaeth mwy dwys ac fel arfer byddent yn disgrifio eu hunain fel PPOs neu rai yn cael eu rheoli dan enw brand y dull IOM lleol. Roedd y rhan fwyaf wedi'u hadnabod fel achosion IOM ac wedi eu hysbysu am eu statws tra roeddent yn y carchar; rhai ar ôl iddynt gael eu galw'n ôl ar drwydded. Disgrifiodd un person sut y gwnaeth ganfod ei fod yn PPO drwy ddarllen amdano ar 'ryw ddarn o bapur'. Roedd llawer yn cofio rhyw ymweliad tra roeddynt yn y carchar, yn aml gan swyddog prawf neu swyddog heddlu o'r IOM; roedd y mwyafrif yn deall mai'r goblygiad oedd, o leiaf yn y lle cyntaf, y byddent yn cael eu gweld gan y gwasanaeth prawf a'r heddlu.

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Norwich

"Cefais ymweliad yn y carchar, daeth swyddog prawf a swyddog heddlu i'm gweld. Fe wnaethon nhw egluro y gallent fy helpu pe bawn yn benderfynol o newid a rhoi'r gorau i droseddu. Eglurwyd y cynllun i mi fel defnyddio abwyd a phastwn."

Sylw gan un sy'n destun IOM yng Nghonwy

"Mae fy arolygwr o'r cynllun PPO, neu ai o'r gwasanaeth prawf mae o? O, dwi'n cofio, plismon ydi o."

- 7.3 Gofynasom os oedd cael eu hadnabod fel rhai sy'n destun IOM wedi eu helpu mewn unrhyw fodd. O'r 16 ymateb, dim ond tri oedd yn negyddol; daeth y sylwadau negyddol hyn o ddwy ardal IOM y gwnaethom asesu fel rhai heb ddatblygu'n llawn. Roedd y 13 sylw arall yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda throseddwy'r yn dweud eu bod wedi elwa wrth gael help gyda'r problemau oedd wedi eu adnabod, yn arbennig tai, cyffuriau, hyfforddiant, cyflogaeth a defnydd cadarnhaol o amser hamdden.

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Tameside

"Duw a wŷr beth fyddwn i wedi ei wneud heb y cynllun, mae'n fendith i mi. Mae fy swyddog prawf yn grêt. Rydw i'n gwneud cwrs 1-1 ar sgiliau meddwl. Pe bawn i'n meddwl fy mod yn mynd i ddefnyddio eto, byddwn yn codi'r ffôn a gofyn am help, a byddwn yn ei gael."

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Norwich

"Maent wedi helpu llawer iawn arna i. Mae gen i system leoli fyd-eang (GPS) sy'n gwneud i mi feddwl ddwywaith am fy ngweithredoedd. Er enghraifft fe es i heibio beic y diwrnod o'r blaen a meddwl am ei ddwyn, ond mae'r tag yn gwneud i chi fod yn fwy ymwybodol o'ch gweithredoedd ac yn eich rhwystro rhag bod yn fyrbwyll. Fe wnaeth tîm yr IOM fy helpu gyda budd-daliadau. Rydw i ar brofion cyffuriau gwirfoddol am fy mod yn arfer bod yn ddefnyddiwr caled o heroin. Rwy'n gweld y gwasanaethau cynghori am gyffuriau ac rwyf wedi cofrestru ar gwrs prifysgol sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan arian yr IOM ac elusen arall sy'n helpu troseddwy. Rwyf hefyd yn cymryd rhan mewn tîm pêl-droed sy'n cael ei alw'n Street Life a leolir yng nghlwb pêl-droed Norwich City."

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Tameside

"Petawn wedi bod ar brawf arferol byddwn wedi colli fy ffordd. Roedd yn rhaid i mi ddod allan i lety anaddas i ddechrau. Am fy mod wedi cael help mi ges le fy hunan ayyb, Os oedd gen i unrhyw broblem roedden nhw'n gallu fy helpu i sortio pethau allan."

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Leeds

"Maent wedi rhoi mwy o symbyliad i mi am eu bod yn cynnig pethau i mi na wnaethon nhw eu cynnig o'r blaen. Fy helpu i gael gwaith, rhoi llawer mwy o gymorth i mi."

Sylw gan un sy'n destun IOM yng Nghonwy

"Mi ges i help i gael allan o'r Rhyl, help i gael fflat, cymorth i gael fy moddion ac aelodaeth o gampfa."

- 7.4 Fe wnaethom ni hefyd holi troseddwy os bu yna unrhyw ganlyniadau negyddol o gael eu hadnabod fel un sy'n destun IOM; roedd 12 oedd yn destun IOM yn credu nad oedd canlyniadau negyddol, neu ychydig iawn ohonynt. Fe wnaeth un ddatgan y byddai canlyniadau negyddol wedi digwydd pe na bai arno eisiau newid, ond gan fod arno eisiau newid, nid oedd dim. Roedd dau oedd yn destun IOM yn bryderus am ganlyniadau gweithrediadau plismona lleol.

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Tameside

"Dim ond yr heddlu wrth y drws. Dyna'r unig beth negyddol. Canfyddiadau'r cymdogion oherwydd sylw rheolaidd yr heddlu."

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Leeds

"Oedd. Roedd yr heddlu yn arfer dod heibio bob nos a llewyrchu'r golau ar dop y car ar ffenestr fy llofft ac roedd yn rhaid i mi ddangos fy hun wrth y drws ffrynt. Bob nos. Fe wnaeth y cymdogion i gyd gwyno ac fe wnaeth bara am wythnosau."

- 7.5 Roedd y rhai oedd yn destun IOM gyda'u canfyddiadau eu hunain o beth oedd eu prif broblemau, ac roedd y rhain yn cytuno'n fras â'r anghenion a aseswyd o'r sampl, gydag

eithriad o'r sgiliau meddwl, na chafodd phrin eu crybwyll gan y rhai oedd yn destun IOM. Y problemau a ganfuwyd eu hunain mwyaf cyffredin oedd camddefnyddio cyffuriau, llety a gwaith.

- 7.6 Roedd y mwyafrif o'r rhai oedd yn destun IOM yn credu eu bod yn gweithio i gynllun a rannwyd, hyd yn oed os nad oedd tystiolaeth ysgrifenedig. Roedd bron pawb yn teimlo fod eu rheolwyr achos wedi gwrandao arnynt wrth benderfynu sut i fynd i'r afael â'u problemau ac roedd sawl un yn gwbl glir fod yr IOM wedi bod yn allweddol wrth eu helpu i newid eu bywydau'n llwyr.

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Norwich

"Maen nhw wedi mynd â fi at wasanaethau cyffuriau a thai er mwyn fy helpu. Fe wnes i ddweud wrthyn nhw beth oedd angen i mi weithio arno, ac fe ddwedon nhw 'Fe allwn dy helpu gyda hynny'."

Sylw gan un sy'n destun IOM yn Norwich

"Mae'r holl wasanaethau wedi bod yn wych; nid oedd goruchwyliaeth flaenorol wedi bod yn ddigon dwys i wneud gwahaniaeth."

Casgliad

- 7.7 Fe wnaeth bron pob un o'r troseddwr ddeall pam roeddynt wedi eu hadnabod fel rhai oedd yn addas ar gyfer dull IOM. Roedd barn y rhai gafodd eu cyfweld yn gyson fwy neu lai â chanfyddiadau eraill yr adroddiad. Roedd cytgord rhwng yr anghenion oedd yn berthnasol i droseddu y gwnaethant eu hadnabod eu hunain a'r rhai a dargedwyd gan y rhai oedd yn gweithio gyda hwy. Roedd gan y mwyafrif agwedd bositif iawn i ddull IOM ac yn gwerthfawrogi dwyster yr help a gynigiwyd iddynt, yn gyson â'r egwyddor o wynebu eu cyfrifoldebau, neu wynebu'r canlyniadau.
- 7.8 Fe wnaeth sawl un sôn nad oedd eu hymdrechion blaenorol i newid wedi rhoi digon o gymorth iddyn nhw i dorri'r patrwm o droseddu. Fe wnaeth nifer sylweddol hefyd sôn am y pwysigrwydd roedden nhw'n ei roi ar unplygrwydd ac ymroddiad eu rheolwr achos, o ba bynnag sefydliad. Roedd yn ymddangos fod y ffaith syml o gael perthynas gyson â rhywun oedd yn fodlon ac yn gallu cynnig help yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai oedd yn destun IOM eu hunain.

8. Canlyniadau perfformiad

Crynodeb

Mae'r bennod hon yn asesu i ba raddau roedd llwyddiant IOM yn cael ei werthuso yn y chwe ardal yr ymwelwyd â hwy, a'r problemau wrth briodoli canlyniadau. Mae hefyd yn amlinellu canlyniadau'r achosion yn sampl yr arolwg.

Ffeithiau allweddol

Mae profi bod dull IOM wedi achosi canlyniad sy'n perthyn i atal neu droseddu yn anodd iawn.

Mae amcanion lluosog dull IOM yn ei gwneud yn anodd creu fframwaith perfformiad i fesur effeithiolrwydd.

Roedd dulliau IOM yn gyffredinol yn gwneud ymgais leol i gynhyrchu data canlyniadau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu.

Roedd cyfraddau aildroseddu yn dal yn uchel ymysg y sampl arolwg, er nad aseswyd newidiadau yn amllder a/neu difrifoldeb aildroseddu.

Mae peth tystiolaeth o gynnydd tuag at ymdrin â phrif anghenion dynodedig y troseddwy a gall hyn annog ymatal yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Lleihau troseddu a lleihau aildroseddu

- 8.1 Mae priodoli canlyniadau i gynlluniau penodol mewn cyfiawnder troseddol yn eithriadol o anodd. Yn absenoldeb methodoleg y cytunwyd arno ar gyfer diffinio canlyniadau, roedd cynlluniau IOM wedi sefydlu eu mesuriadau perfformiad eu hunain.
- 8.2 O ystyried fod gan y dull IOM ddau amcan sylfaenol, lleihau aildroseddu a lleihau troseddu, nid oedd yn syndod fod ardaloedd yn aml yn ceisio dangos eu llwyddiant drwy gyfeirio at y ffactorau hyn. Er bod, ar sail achos wrth achos, peth gwerthuso o gynnydd ar ffactorau oedd yn waelodol i droseddu, ychydig iawn o werthuso systematig oedd o'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r ffactorau hyn.
- 8.3 Y ffurf fwyaf cyffredin o fesur perfformiad oedd troseddu (neu ryw brocsi o droseddu fel arestiad neu gyhuddo) cyn cael ei fabwysiadu gan gynllun IOM, o'i gymharu â mesur tebyg ar gyfer y cyfnod ar ôl mabwysiadu.
- 8.4 Mae'r unigolion a ddynodwyd yn tueddu i gael bywydau anhrefnus iawn, gyda sawl cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae sefydlu man cychwyn o arestiaid blaenorol, cyhuddiadau neu gollfarnau yn y cyfnod yn arwain at fabwysiadu'r dull, yn broblematig ynddo'i hun.
- 8.5 Roedd rheolwyr wedi buddsoddi egni sylweddol wrth werthuso eu dulliau, er bod amrywiaeth mawr yn y methodoleg a ddefnyddiwyd ganddynt. Gwnaeth rhai ardaloedd ymgais i ddiystyru rhai dyddiau ychydig cyn mabwysiadu'r dull IOM, gan ddadlau nad oedd y dyddiau a dreuliwyd yn y ddalfa yn rhai roeddynt yn rhydd i gyflawni troseddau, cael eu arestio neu cael eu cyhuddo. Yn ymarferol, roedd y dull hwn yn cymryd llawer iawn o amser, gan fod troseddwy yn aml yn cael eu dal gan yr heddlu ar sawl achlysur, am hydoedd gwahanol o amser, neu yn cael ei hail alw i'r ddalfa am resymau eraill. Roedd ardaloedd eraill wedi cymryd dull mwy pragmataidd a dim ond yn diystyru'r amser roedd y troseddwr wedi cael ei ddedfrydu i garchar; roedd eraill nad oeddent yn cymryd unrhyw sylw o hyn.

- 8.6 Roedd problemau tebyg gyda'r cyfnod ôl-fabwysiadu. Nid oedd safon gyffredin ynglŷn â phryd y dylai troseddwr gael ei dynnu o'r cohort, na pha mor hir ar ôl ei dynnu roedd yn rhesymol i fesur aildroseddu (neu i gyfrif ymatal). Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau rhwng dulliau IOM.
- 8.7 Mewn rhai ardaloedd, roedd y prif IOM wedi ceisio cymorth gan bartneriaid i fesur y canlyniadau. Mewn un ardal, a aseswyd gennym fel un sy'n perfformio'n wael, dywedwyd wrthym fod y cohort wedi llwyddo i gael gostyngiadau arwyddocaol iawn mewn aildroseddu. Er na wnaethom ddadansoddi'r data, a allai fod yn fanwl gywir, roeddem yn hyderus fod unrhyw welliannau yn annhebygol iawn o fod yn rhai y gellir eu priodoli i weithgaredd IOM y gwnaethom ei arolygu.
- 8.8 Yn fwy arwyddocaol, nid oedd yr un o'r fframweithiau perfformiad yn ystyried canlyniadau eu cohortau, o'i gymharu â beth ellid ei ddisgwyl gan gohort tebyg o droseddwr, gyda thuedd debyg i droseddu, nad oedd yn derbyn ymyriadau'r IOM, ble bynnag y gallent fod yn lleol.
- 8.9 Roedd ardaloedd eraill yn canolbwyntio ar fesurau eraill o leihau troseddu'n gyffredinol. Un methodoleg oedd mesur lefelau troseddu yn yr ardal roedd y dull yn gyfrifol amdano a chymharu hwn ag ardal cyfagos nad oedd wedi mabwysiadu'r dull IOM yn llawn. Fe ddywedodd un ardal wrthym fod lleihad mewn troseddu a gofnodwyd yn eu hardal weithredu yn sylweddol fwy na'r rhanbarth agosaf nad oedd wedi mabwysiadu dull IOM i'r un graddau â hwy. Er y gallai hyn fod â pheth dilysrwydd, mae cymaint o newidynnau fel ei bod yn anodd gwneud cyswllt achosol.
- 8.10 Rhoddwyd ymdrech sylweddol i werthuso mewn rhai ardaloedd, er i ni ganfod fod pob un o'r methodoleg yn brin mewn rhyw ogwydd neu'i gilydd. Nid oedd yr un o'r gwerthusiadau hyn yn ystadegol soffistigedig. Ni fwriedir hyn i fod yn feirniadaeth o'r rhai hynny wnaeth ymdrechu i werthuso eu gwaith, ond yn hytrach i gydnabod nad yw'n rhesymol i ddisgwyl i staff gweithredol na rheolwyr gynnal gwerthusiadau i ffenomena cymhleth heb arweiniad gan ymchwilyr arbenigol.

Cynnydd ar anghenion dynodedig: ein canfyddiadau

- 8.11 Edrychodd yr arolwg ar y tri angen a ddynodwyd fel blaenoriaeth a gwnaed asesiad o unrhyw gynnydd a wnaed. Ar gyfer y rhai a gafodd eu hadnabod fel rhai sy'n destun IOM, mae'n annhebygol iawn y byddant yn gallu symud o batrymau troseddu sydd wedi ymwreiddio i ymatal heb fynd i'r afael â'r problemau gwaelodol hyn.
- 8.12 Mae'r ffaith fod bron i chwarter y sampl oedd wedi'i canfod ag angen am gyffuriau wedi gwneud cynnydd da yn arwyddocaol; yn yr un modd, roedd dros dri chwarter o'r sampl ag anghenion ETE a dwy ran o dair o'r rhai oedd â phroblem llety wedi gwneud o leiaf peth cynnydd.

Ffactorau a chanrannau achosion sy'n dangos angen	Cynnydd Da	Peth Cynnydd	Dim Cynnydd	Dirywiad
Camddefnyddio cyffuriau 58%	22%	15%	54%	9%
Meddwl ac ymddygiad 52%	12%	43%	43%	2%
Ffordd o fyw a chymdeithion 38%	3%	43%	53%	0%
Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth 35%	29%	54%	18%	0%
Llety (33%)	35%	31%	27%	8%
Camddefnyddio alcohol (26%)	14%	45%	36%	5%

8.13 Mae'r ffigurau hyn yn dangos, gyda chymorth ymyriadau, ei bod yn bosibl gwneud cynnydd da i helpu'r troseddwr i fynd i'r afael â ffactorau sydd â chyswllt agos â'u troseddu. Mae'n ymddangos yn debyg y bydd y gwelliannau hyn yn cael effaith ar eu gallu i atal rhag troseddu yn y tymor canolig.

Canlyniadau troseddu: ein canfyddiadau

- 8.14 Mae'r arferion a welsom yn ystod yr arolwg hwn mor wahanol ym mhob un o'r llefydd y gwnaethom ymweld â hwy fel ei bod yn anodd dod i gasgliadau cyffredinol. Ni ddylai'r canfyddiadau, felly, gael eu gweld fel rhai sy'n dangos lefelau perfformiad cyffredinol o ddull IOM ledled Cymru a Lloegr. Mae'r arolwg, fodd bynnag, yn dangos fod IOM yn cynnig posibiliadau a chyfleoedd arwyddocaol i reoli troseddwr yn effeithiol, i'w hadsefydlu neu i ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd i rwystro/gorfodi sydd eto i'w ddatblygu ym mhob ardal. Credai staff ym mhob ardal y gwnaethom ymweld â hi fod IOM wedi cael effaith gadarnhaol ar batrymau troseddu lleol.
- 8.15 Yn Tameside, er enghraifft, gwelsom sut roedd asiantaethau wedi gweithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o effaith dulliau'r IOM. Er mwyn rheoli troseddwr IOM oedd wedi dechrau llithro'n ôl i ymddygiad troseddol, roedd swyddog prawf yn gweithio yn swyddfa'r heddlu ochr yn ochr â chydweithwyr o'r heddlu yn yr ystafell reoli. Roedd hi'n gallu adnabod yn gyflym y digwyddiadau ble roedd angen ymyriadau cynnar gan gydweithwyr yn yr IOM, a gwneud trefniadau i hyn ddigwydd ar ei union. Roedd hyn yn golygu fod troseddwr yn llai tebygol o ddychwelyd i batrwm sefydledig o droseddu heb ymyriadau neu gael eu dal. Roedd arweinwyr yr heddlu a'r gwasanaeth prawf yn gallu mynegi sut y credent hwy fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar leihau troseddu ac aildroseddu yn y gymuned leol.
- 8.16 Yn ogystal, mae sawl ardal yn gweithredu mentrau neu weithrediadau y gellir eu gweld fel rhai sy'n ategu dull cyffredinol IOM neu sydd ar wahân iddo. Er enghraifft, dywedodd un ardal wrthym am gyrch gan yr heddlu i chwalo gweithredoedd grŵp bach o droseddwr drwy fynd ar eu holau am droseddau cymharol ddinod, fel peidio â chael trwydded deledu neu drwydded treth cerbyd. Er y gallai rhai o'r troseddwr fod wedi bod yn destun i'r cyrch

hwn tra'n dal yn destun i'r IOM, nid oedd pawb. Roedd hyn yn creu anawsterau wrth asesu canlyniadau oedd yn uniongyrchol berthnasol i weithgaredd IOM.

- 8.17 Gwelsom beth gwaith adsefydlu ardderchog oedd, yn unol ag egwyddorion yn seiliedig ar dystiolaeth, wedi ceisio mynd i'r afael ag anghenion cysylltiedig ag aml droseddu mewn dull dwys a chynhaliol. Mae hyn wedi achosi newid sylweddol mewn nifer o achosion. Fodd bynnag, mae'n amlwg ac yn rhagfynegadwy nad oedd pawb a ganfuwyd yn dymuno derbyn yr help oedd yn cael ei gynnig iddynt. Ble roedd cohort wedi'i ddewis ar sail ymddygiad troseddol sydd wedi ymwreiddio, mae'n rhesymol cymryd yn ganiataol fod cyfran sylweddol ohonynt nad ydynt efallai yn barod i gymryd mantais o'r cynnig o help ar hyn o bryd. Nid yw hyn yn ddangosydd methiant.
- 8.18 Roedd y sampl y gwnaethom edrych arno yn cynnwys cymysgedd o achosion: roedd rhai wedi eu rheoli yn y gymuned gyda dull IOM, ac roedd rhai wedi cael eu hadnabod fel achosion IOM, ond ddim eto wedi cael eu rheoli yn y gymuned. O'r 65 achos oedd wedi'u rheoli yn y gymuned, fe wnaethom ganfod y dystiolaeth ganlymol o aildroseddu neu ymatal.

	Nifer	Canran ^v
Torri amodau gorchymyn neu drwydded, neu aildroseddu	40	62%
Cwblhau amodau gorchymyn neu drwydded heb eu torri neu aildroseddu	9	14%
Gorchymyn neu drwydded yn gyfredol heb droseddu pellach	16	25%

- 8.19 Er nad yw'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad mawr yn y mesur deuaidd o aildroseddu (roedd 62% wedi'u cael yn euog o leiaf unwaith), nid yw'n dal unrhyw ostyngiad yn amllder yr aildroseddu nac yn mesur yr effaith y gallai hyn ei gael ar gyfraddau troseddu yn yr ardal.
- 8.20 Mae'r canfyddiadau hyn fwy neu lai'n gyson gyda chanfyddiadau Arolwg Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi o raglen Gwaith Troseddu Oedolion, lle mewn 63% o achosion IOM/PPO statudol roedd unigolion wedi derbyn rhybudd, eu cael yn euog neu eu cyhuddo o fewn naw mis o ddechrau'r gorchymyn neu'r drwydded.
- 8.21 Mae'n bwysig sylwi, er bod y ffigurau hyn yn ymddangos yn gyson gyda data Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, eu bod yn arwyddocaol wahanol i erthyglau ymchwil a gwerthusiadau eraill a gyhoeddwyd sy'n ymddangos eu bod yn dangos llawer gwell perfformiadau ar ganlyniadau adsefydlu^{10/11}. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau methodolegol sy'n cael effaith arwyddocaol ar unrhyw ddadansoddiad cost a budd neu nodweddion y dulliau IOM a astudiwyd a'u harolygu.
- 8.22 Ble roedd troseddwr naill ai'n gwrthod cydweithredu â'r dull IOM, neu eu bod mewn risg o ddychwelyd ar unwaith i aildroseddu, roedd gwybodaeth i darfu ar unrhyw troseddu posibl wedi ei hanfon i heddlu gweithredol yn nhri chwarter yr achosion. Ble roedd gwybodaeth i awgrymu troseddu pellach, cymerwyd camau gan yr heddlu, fel sylw ychwanegol gan adnoddau eraill plismona.
- 8.23 Er ei bod yn anodd mesur gwerth gwybodaeth fel hyn, mae'n amlwg yn cynrychioli offeryn defnyddiol wrth fynd i'r afael â throseddu, sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau troseddu yn yr ardal. Gwelsom nifer o enghreifftiau o wybodaeth yn cael ei chynhyrchu a'i rhannu, gan arwain yn uniongyrchol at weithredu gan yr heddlu i atal troseddu a dal troseddwr.

^v Nid yw'r cyfanswm yn 100% am fod ffigurau'n cael eu talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf.

Casgliad

- 8.24 Roedd rhai o'r ardaloedd y gwnaethom ymweld â hwy wedi gwneud ymdrechion sylweddol i werthuso eu gwaith. Fodd bynnag, roedd absenoldeb methodoleg y cytunwyd arno, neu ymchwil academiaidd annibynnol i asesu canlyniadau, yn golygu bod ansawdd y gwerthuso a'r gwerth y gellid ei roi arnynt yn gyfyngedig. Er bod rhai gwerthusiadau o brosiectau yn ymddangos, hyd yn hyn nid oes corff terfynol o ymchwil academiaidd wedi'i adolygu gan gymheiriaid y gellir tynnu arno.
- 8.25 Er fod y ganran o'r sampl arolygu a gafwyd yn euog yr eildro yn siomedig, mae'n gyson â'r gyfran uchel o droseddwr a ganfuwyd ar sail graddau eu troseddu. Mae hyn, yn ei dro, yn aml yn cyfateb i anghenion cymhleth ac anawsterau wrth ymatal rhag troseddu mewn cyfnod o amser cymharol fyr heb syrthio'n ôl, hyd yn oed pan ddarparwyd adnoddau sylweddol.
- 8.26 Er i ni weld cymaint o arferion da ymddangosiadol mewn gwaith adfer, ychydig o dystiolaeth a welsom o welliannau arwyddocaol, fel y'u mesurir gan y raddfa ddeuaidd o ailgollfarnu, a byddem yn cymell gofal lle gwneir honiadau o'r fath. Nid yw'n syndod ble targedwyd troseddwr ar gyfer plismona rhagweithiol ychwanegol, fod y tebygolrwydd yn uwch iddynt gael eu hailgollfarnu petaent yn aildroseddu. Ni ddylai unrhyw arolwg na gwerthusiad pellach ganolbwyntio yn unig ar fesur deuaidd o ail gollfarnu, ond hefyd ystyried amllder yr aildroseddu.
- 8.27 Roedd staff yn gorfod gallu cefnogi'r ymdrechion roedd troseddwr wedi'u gwneud tuag at adsefydlu tra ar yr un pryd bod yn ymwybodol yn gyson o'r tebygolrwydd o lithro'n ôl. Fe wnaethom ddarganfod fod y gallu i newid cyfeiriad rhwng adsefydlu a rhwystro/gorfodi yn elfen hanfodol o arfer dda. Yn ymarferol, nid oedd gallu canfod os oedd y peth iawn yn cael ei wneud ar yr amser iawn yn ormod o broblem; mae cyfundrefnu'r arfer hwn i fframwaith perfformiad neu arolygu, fodd bynnag, yn llawer iawn anoddach.
- 8.28 Credwn fod yr anhawster mewn cyrraedd lefelau uchel o ymataliad llwyr yn fwy o ganlyniad i ddewis y troseddwr cywir ar gyfer dull IOM nag unrhyw fethiant o ran y dull. Mae tystiolaeth arolwg o gynnydd yn erbyn anghenion canfyddiedig yn addawol. Mae'n dangos yr anawsterau y gallai troseddwr eu cael wrth geisio goresgyn patrymau ymddygiad sydd wedi eu hen sefydlu a chyfleoedd gwael mewn bywyd. Ni ddylai hyn dynnu oddi wrth y cynnydd mae sawl troseddwr yn ei wneud tra'n dal yn destun IOM.
- 8.29 Ni ddylid tanbrisiu gwerth gwybodaeth a gesglir o fewn y dull IOM i chwalu patrymau troseddu cyfredol a lleihau troseddu mewn ardal, a hyn efallai yn y pen draw fydd y ddadl orau dros barhau i ddatblygu IOM.

Atodiad 1: Geirfa

ETE	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolyn, ac i gynyddu eu rhagolygon cyflogaeth
GPS	System leoli Fyd-eang
HMI Constabulary	Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
HMI Probation	Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi
IOM	Rheoli Troseddwyr Integredig
MAPPA	Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu y carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleoli i reoli rhai mathau o droseddwyr sydd â risg uwch o niweidio eraill
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
NOMS	Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
OASys	System Asesu Troseddwyr
OGRS	Graddfa Ailgollfarnu Grwpiau Troseddwyr
OMI 2	Arolygiad Rheoli Troseddwyr 2
PPO	Troseddwyr Cyson a Throseddwyr Eraill â Blaenoriaeth
Risg o niwed i eraill	Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf EM i ddisgrifio'r gwaith o ddiogelu'r cyhoedd, yn y lle cyntaf drwy ddefnyddio ymyriadau cyfyngol, i gadw mor isel â phosibl gyfle unigolyn o ymddwyn mewn ffordd sy'n creu risg o niwed i eraill
YJB	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr
YOT/YOS/YJS	Tîm Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Atodiad 2: Rôl yr arolygiaethau a'r cod ymarfer

Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi

Ceir gwybodaeth am Swyddogaeth Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

<http://www.justice.gov.uk/about/hmi-probation>

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd oddi fewn i'w gylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygwr Gwasanaeth Prawf EM
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion M3 3FX*

Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi

Ceir gwybodaeth am Swyddogaeth Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

<http://www.hmic.gov.uk/>

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sydd oddi fewn i'w gylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygwr Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi
6th Floor, Globe House, 89 Eccleston Square
Llundain, SW1V 1PN*

Atodiad 3: Cyfeiriadau

- ¹ Office for Criminal Justice Reform, (2005), *PPO Strategy Premium Service Commitments*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain - <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20081023143640/crimereduction.homeoffice.gov.uk/po/ppominisite09.htm>
- ² Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (Mehefin 2006), *The NOMS Offender Management Model*, Y Swyddfa Gartref, Llundain
- ³ Senior, P., et al, (Mai 2011), *Process Evaluation of Five Integrated Offender Management Pioneer Areas*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain
- ⁴ London Criminal Justice Partnership, (Ebrill 2011), *An evaluation of the Diamond Initiative: year two findings*, London Criminal Justice Partnership, Llundain
- ⁵ Y Swyddfa Gartref (Mehefin 2009) *Integrated Offender Management Government Policy Statement*, Y Swyddfa Gartref, Llundain
- ⁶ Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, (Ebrill 2010), *Integrated Offender Management: Key Principles*, Y Swyddfa Gartref, Llundain
- ⁷ Y Swyddfa Gartref, (Medi 2013), *Integrated Offender Management: Findings from the 2013 Survey*, Y Swyddfa Gartref, Llundain
- ⁸ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Mai 2013), *Transforming Rehabilitation: A Strategy for Reform*, Y Llyfrfa, Norwich
- ⁹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, (2012), *2012 Compendium of re-offending statistics and analysis: Ministry of Justice Statistics bulletin*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain
- ¹⁰ Ellingworth, D. and Wong, K., (Awst 2013), *Impact of Sussex IOM on reconviction*, Prifysgol Sheffield Hallam, Sheffield
- ¹¹ Williams, A. and Barak, A., (Tachwedd 2012), "The Bristol Integrated Offender Management Scheme: A Pseudo-Experimental Test of Desistance Theory", *Policing: A Journal of Policy and Practice*, Cyf 7, Rhif. 2. 2013, tt.123-134